Dogfen Ymgynghori Ffurfiol

Cynnig i gau Ysgol Llanfynydd, (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg) o 31 Awst 2016 gyda disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal leol yn amodol ar ddewis y rhieni

Hydref 2015

Tabl Cynnwys

1. **Cyflwyniad**
2. **Datblygu Cynnig Trefniadaeth Ysgolion**
3. **Cefndir y Cynnig**
4. **Y Cynnig**
5. **Manteision, anfanteision a risgiau'r cynnig**
6. **Beth fydd effaith y cynnig ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg?**
7. **Gwerthuso effaith y cynnig ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg**
8. **Darpariaeth amgen**
9. **Digonolrwydd Llety Ysgolion ac Effaith y Cynnig ar Ansawdd Llety**
10. **Beth fydd effaith y cynnig ar gyllido Ysgolion?**
11. **Beth fydd effaith y cynnig ar y tir ac adeiladau'r Ysgol?**
12. **Pa faterion sydd wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r cynnig?**
13. **Effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg**
14. **Effaith y Cynnig ar Athrawon, Staff Cefnogi a'r Corff Llywodraethu**
15. **Effaith y Cynnig ar Ddisgyblion**
16. **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Grwpiau o Ddysgwyr Diamddiffyn**
17. **Trefniadau Cludiant**
18. **Trefniadau Derbyn**
19. **Effaith y Cynnig ar Ddarpariaeth Uwchradd**
20. **Sut fydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal?**

1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor- Sir y Fflint yn dymuno ceisio barn partïon â diddordeb ynghylch y cynnig i gau Ysgol Llanfynydd o 31 Awst 2016 gyda disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal leol, yn amodol ar ddewis y rhieni.

1.2 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi gwybodaeth y dylai ymgyngoreion ystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.

1.3 Mae'r cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau dydd Mercher, 21 Hydref 2015 ac yn gorffen dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2015.

2. Datblygu Cynigion Trefniadaeth Ysgolion

2.1 Dylai datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion roi sylw i bolisïau ac egwyddorion cenedlaethol cyffredinol, gan gynnwys:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth Iaith Gymraeg 2012 – 2017;
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (CSCA);
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, cynllun datblygu cynaliadwy newydd i Gymru Mai 2009 neu unrhyw strategaeth olynol;
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru (a gyhoeddwyd Chwefror 2011 dogfen wybodaeth rhif 95/2011), neu unrhyw strategaeth olynol;
- Addysg Ffydd.

2.2 Yn ogystal, dylai datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion roi sylw i gynlluniau lleol, gan gynnwys;

- Cynlluniau lleol ar gyfer datblygu economaidd neu dai;
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Cynlluniau partneriaeth plant a phobl ifanc;
- Strategaeth moderneiddio ysgolion.

2.3 Dylid rhoi sylw hefyd i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion, megis:

- Canllawiau gweithredol ynghylch teithio gan ddysgwyr (Ebrill 2009);
- Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru (Hydref 2011).

2.4 Mae'r ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth gan gyrff perthnasol wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion fel a ganlyn:

- Ansawdd a safonau mewn addysg - deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth;
- Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion; ac
- Adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill.

2.5 Mae ffactorau eraill hefyd yn cael eu hystyried, megis effaith y cynnig ar blant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd, ac unrhyw faterion cydraddoldeb (gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy asesiadau effaith ar gydraddoldeb).

3. Cefndir y Cynnig

3.1 Ein nod yw bod plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol, awydd cryf am ddysgu gydol oes a bod yn barod iawn ar gyfer y byd gwaith. Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i symud ymlaen trwy wahanol gamau o'u haddysg. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael rhaglen ddysgu a fydd yn bersonoledig i wneud y gorau o'i alluoedd. Bydd plant a phobl ifanc yn dysgu mewn ystod gyffrous ac arloesol o arddulliau a lleoliadau. Bydd y rhain yn cynnwys profiadau dysgu galwedigaethol, mentrus, gwirfoddol, ysbrydol, diwylliannol a chwaraeon. Bydd amcanion trefniadaeth ysgolion yn darparu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg, a hefyd darpariaeth ffydd.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i barhau i godi safonau, gyda thasgau allweddol i gynnwys sicrhau:

- disgwyliadau uchel a ffocws clir ar wella addysgu, dysgu a chyrhaeddiad ym mhob cymuned ysgol;
- holl adnoddau sydd ar gael i ysgolion yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc yng nghyd-destun pwysau cyllideb blynyddol;
- ymagwedd gyson tuag at gasglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth asesu, gan gynnwys systemau olrhain, i dargedu cefnogaeth ac ymyriadau; ac
- ymrwymiad parhaus i ddatblygiad athrawon a staff cefnogi mewn ysgolion.

3.2 Cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir y Fflint y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion diwygiedig ym mis Ionawr 2015, a ddiweddarwyd o strategaeth flaenorol y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn 2010. Mae'r ddogfen hon ar gael yn y ddolen ganlynol:

www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation.

3.3 Mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ofynnol oherwydd bod angen i ni:

- Sicrhau bod darpariaeth addysg o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy;
- Wella ansawdd adeiladau ysgolion a chyfleusterau;

- Darparu'r nifer cywir o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir.
- Mynd i'r afael ag adeiladau ysgol anghynaladwy ac isadeiledd ategol;
- Cydnabod bod gwneud dim yn golygu cymarebau disgybl-athro uwch wrth i arian leihau; a
- Sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o arian allanol trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru.

3.4 Yr 'ysgogwyr' neu feini prawf allweddol ar gyfer moderneiddio sy'n sail i'r uchod yw:

- Gwelliant addysgol
- Arweinyddiaeth ysgolion gwydn
- Adeiladau addas
- Lleoedd heb eu llenwi
- Adnoddau'n lleihau

3.5 Mae gan y portffolio ysgolion cynradd 1967 (neu 17.15%) o leoedd heb eu llenwi (yn seiliedig ar CYBLD[1] Ionawr 2015), tra mai'r targed cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru yw gostwng y lefel hon dan 10%.

3.6 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen sicrhau bod pob ysgol a safleoedd ysgolion yn gallu darparu'r cyfleoedd ehangaf posibl i blant. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr heriau addysgol sy'n wynebu ysgolion bach, fel y cyfeirir atynt yn adroddiad Estyn 2003 - Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru, sy'n cynnwys:

- Addysgu dosbarthiadau oedran cymysg sy'n cynnwys mwy na 2 neu 3 o grwpiau oedran;
- Maint cyfyngedig grwpiau cyfoedion;
- Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol;
- Anawsterau gyda recriwtio a chadw staff;
- Beichiau gormodol ar staff; a
- Mwy o arbenigedd yn ofynnol i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

3.7 Amcanion y strategaeth moderneiddio ysgolion a'r adolygiad o ysgolion a gynhwysir yng nghynllun gweithredu'r cyngor yw mynd i'r afael â'r heriau hyn a sicrhau bod y safonau a chyrhaeddiad presennol o fewn y sector cynradd yn cael eu cynnal ar gyfer y dyfodol.

[1] CYBLD –Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

3.8 Bydd darpariaeth ysgolion cynradd yn y dyfodol yn ceisio dilyn un o'r modelau a argymhellir gan y Cyngor a ddisgrifir isod. Y modelau yw:

a) 1 dosbarth y flwyddyn neu ragor - ysgol gynradd yn darparu o leiaf 210 o leoedd llawn amser neu fwy (tua 30 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn) a gyda dim mwy na 25% o leoedd heb eu llenwi. Modelau eraill o leiaf un dosbarth mynediad, er enghraifft, 1.5, 2, 2.5 neu 3 dosbarth y flwyddyn hefyd yn effeithlon ac yn effeithiol.

b) Gall ysgolion sydd â llai nag 1 dosbarth y flwyddyn, ond gyda mwy na 0.5 dosbarth y flwyddyn gan ddarparu o leiaf 105 o leoedd llawn amser (tua 15 disgybl ymhob grŵp blwyddyn) lle y bo angen, gael eu hystyried ar gyfer ffurfio ysgol ffederal neu ysgol ardal. Byddai ysgolion ardal yn cael eu ffurfio yn unol â model gweithredu a ffafrir gan y Cyngor yn (a) uchod.

3.9 Os yw'r ysgol yn methu cynnal digon o ddisgyblion neu bod adolygiad ardal yn penderfynu bod ysgol yn cael ei chau, mae angen cyhoeddi cynigion statudol er mwyn cau unrhyw ysgol gynradd, gan gynnwys y rhai o fewn ffederasiwn.

3.10 Mae'r Cyngor yn cyflwyno'r cynigion hyn gan ei fod o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig o fudd tymor hir i bob disgybl yn Sir y Fflint.

4. Y Cynnig

4.1 Cynnig i gau Ysgol Llanfynydd, ger Wrecsam LL11 5HG (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg) o 31 Awst 2016 gyda disgyblion yn trosglwyddo i'r rhwydwaith lleol o ysgolion yn amodol ar ddewis y rhieni.

4.2 Mae'r cynnig yn cael ei roi gerbron ar sail y meini prawf a osodwyd yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, sef:-

- Lleoedd heb eu llenwi ar draws y portffolio ysgolion cynradd - Ysgol Llanfynydd yn Ionawr 2015 (CYBLD) gyda 42 o ddisgyblion llawn amser gyda lleoedd heb eu llenwi yn 47.5%. O fis Medi 2015 roedd poblogaeth yr ysgol yn cynnwys 34 o ddisgyblion llawn amser gyda lleoedd heb eu llenwi yn codi i 57.5%.
- Meini prawf adnoddau lleihaol (h.y. ysgolion a gefnogir gan ddisgyblion nad ydynt o'u cymuned leol a/neu niferoedd bach o fewn y gymuned yn codi pryder ynghylch cynaliadwyedd o fewn portffolio'r ysgol); 44% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfynydd nad yw eu hysgol agosaf, a
- Meini Prawf Ysgolion Bach – mae poblogaeth a chynhwysedd Ysgol Llanfynydd yn is na dynodiad cenedlaethol o ysgol fach, ar ben hynny nid yw niferoedd ysgolion yn bodloni gofynion sylfaenol o fodelau ysgolion cynradd fel y nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor.

4.3 Mae hyn yn arwain at gostau uwch fesul disgybl; costau adeiladu, arweinyddiaeth a gweinyddiaeth ddiangen. Bydd y cynnig yn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio gwariant ar yr ystafell ddosbarth mewn amser o gyllidebau sy'n prinhau'n flynyddol ar gyfer ysgolion yn y dyfodol rhagweladwy.

4.4 O fewn yr ardal sy'n agos at Lanfynydd a'r ardal gyfagos mae 4 ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg. Mae'r ysgolion yn cael eu rhestru isod (ynghyd â'u categoreiddiad ysgolion cenedlaethol) ar gyfer safonau addysg:

- Ysgol Llanfynydd (Categori 2)
- Ysgol Parc y Llan, Treuddyn (Categori 1)
- Ysgol Gynradd Abermorddu (Categori 3)
- Ysgol Estyn, Yr Hob, (Categori 3)
- Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam, (Categori 3)

Mae'r System Categoreiddio Ysgolion Cenedlaethol bellach wedi cael ei gyflwyno yng Nghymru. Mae'r System Categoreiddio Ysgol Cenedlaethol yn darparu ffordd glir a syml o ddeall pa mor dda mae ysgol yn perfformio ar gyfer ei holl ddisgyblion, pa mor effeithiol y caiff ei harwain a'i rheoli, ansawdd yr addysgu a'r dysgu a lefel y gefnogaeth a herio mae ei angen i wneud hyd yn oed yn well. Bydd ysgolion mewn un o bedwar grŵp safonau (1 i 4), gydag ysgolion grŵp safonau 1 yn dangos perfformiad cyffredinol da iawn a'r rhai sydd yng ngrŵp safonau 4 yn dangos yr angen mwyaf am well perfformiad.

Mae pob un o'r pedair ysgol yn cael eu nodi fel rhai sydd â'r un 'Gallu i Wella' gan Wasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae pob un ar hyn o bryd yn yr un categori ar gyfer cefnogaeth Paragraph Insert required

4.5 Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am sicrhau bod nifer digonol o leoedd ysgol o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir. Mae'r galw lleol yn Llanfynydd yn annigonol i gefnogi ysgol gynradd o faint addas, mae'r ysgol wedi gostwng i 34 o ddisgyblion llawn amser ym mis Medi 2015 bron i hanner poblogaeth yr ysgol sy'n byw yn yr Awdurdod cyfagos ac nad Ysgol Llanfynydd yw eu hysgol agosaf. Mae nifer gwirioneddol y disgyblion llawn amser ar y gofrestr ym Medi 2015 wedi cael ei wirio gydag Ysgol Llanfynydd a Thîm Gwybodaeth Rheoli Ysgolion Sir y Fflint.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd ymgynghoriad statudol o amgylch newid trefniadaeth ysgol yn achosi lefel o ansicrwydd o fewn y gymuned ysgol leol a all fod yn factor sy'n cyfrannu at ostyngiad yn nifer y disgyblion.

4.6 Hyd nes y gostyngiad diweddar yn nifer y disgyblion yn Ysgol Llanfynydd (fel o Medi 2015), nodir o 2011 mae nifer y disgyblion yn ardal Llanfynydd a'r ardal gyfagos wedi aros yn gymharol sefydlog heb unrhyw gynnydd neu ostyngiad sylweddol.

Mae'r map canlynol yn dangos y lleoliad cartref presennol (Medi 2015) ar gyfer disgyblion Ysgol Llanfynydd.


Pupils attending Ysgol Llanfynydd Primary
Legend
Pupils attending Ysgol Llanfynydd
Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn Primary School
Ysgol Derwenfa, Leeswood Primary School
Ysgol Estyn, Hope Primary School
Ysgol Llanfynydd Primary School
Abermorddu Primary School
Bwlchgwyn Primary School
St Mary's, Brymbo, Primary School
Flintshire County Boundary
Sir y Fflint
Flintshire
Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow
Scale 1:50,000 @ A4
OS Map: Landranger
Created 28/08/2015
N

4.7 **Canran y disgyblion nad ydynt yn mynychu Ysgol Llanfynydd fel eu hysgol agosaf** (Ffynhonnell: ciplun o ddisgyblion o'r system ONE, Medi 2015)

Ysgol	% o'r disgyblion sy'n byw ym mhentref Llanfynydd	% o'r disgyblion sy'n byw yn Llanfynydd/Ffrith Cymau	% o'r disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd eraill
Ysgol Llanfynydd	17.6%	55.8%	44%

4.8 Mae'r tabl isod yn rhoi nifer y disgyblion llawn amser ar y gofrestr ar hyn o bryd (cyfrifiad Ionawr 2015), galluoedd presennol yr ysgolion, nifer derbyn a lleoedd heb eu llenwi sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig.

Enw'r Ysgol	**Cyfanswm y disgyblion (LlA) Ionawr 2015**	**Capasiti (LlA)**	**Niferoedd Derbyn**	**Lleoedd heb eu llenwi**	**% o leoedd heb eu llenwi**
Ysgol Llanfynydd	42	80	11	38	47.5%
Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn	86	106	15	20	18.86%
Ysgol Gynradd Abermorddu	190	206	29	16	7.76%
Ysgol Estyn, Yr Hob	199	216	30	17	7.87%
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam	93	98	14	5	5.10%
CYFANSWM	**610**	**706**		**96**	

Yn dilyn adolygiad o asesiad capasiti Ysgol Parc y Llan, Treuddyn ym Medi 2015, bydd capasiti'r ysgol yn cynyddu o 106 i 111, bydd y nifer derbyn yn aros yn 15.

4.9 Mae'r tabl isod yn cynnwys disgyblion llawn amser ar y gofrestr ar hyn o bryd dros gyfnod o 5 mlynedd o gymharu ag ysgolion cyfagos.

Nifer y disgyblion llawn amser ar y gofrestr (Ffynhonnell: Data CYBLD Ionawr) Ionawr 2011-2015 - o'i gymharu ag ysgolion cyfagos

Enw'r Ysgol	Ion 11	Ion 12	Ion 13	Ion 14	Ion 15
Ysgol Llanfynydd (CS)	45	48	44	39	42
Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn (CS)	77	71	76	85	86
Ysgol Gynradd Abermorddu (CS)	196	195	192	196	190
Ysgol Estyn, Yr Hob (CS)	181	186	193	204	199
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam (CS)	88	87	93	95	93
Cyfanswm	**587**	**587**	**598**	**619**	**610**
Capasiti (Llawn Amser)	**706**	**706**	**706**	**706**	**706**
Niferoedd Lleoedd heb eu llenwi	**119**	**119**	**108**	**87**	**96**
% disgyblion lleoedd heb eu llenwi	**16.85**	**16.85**	**15.29**	**12.32**	**13.59**

(CS – Cyfrwng Saesneg)



4.10 Mae rhagamcanion disgyblion ar gyfer holl ysgolion cynradd yn cael eu cynnal ar ôl dychwelyd ffurflen swyddogol yr ysgol (h.y. CYBLD ysgolion Ionawr). Mae rhagamcanion disgyblion wedi cael eu datblygu ac yn cyd-fynd ag Awdurdodau Lleol eraill ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

Rhagamcanion disgyblion ar gyfer ysgolion Cyfrwng Saesneg yn yr ardal o gwmpas Llanfynydd yn seiliedig ar Ddata Cyfrifiad Ysgolion Ionawr 2015 (Nifer y Disgyblion Llawn Amser ar y Gofrestr)

Ysgolion	Medi 2015	Medi 2016	Medi 2017	Medi 2018	Medi 2019	+/-
Ysgol Llanfynydd (CS)	39	35	33	34	34	-5
Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn (CS)	89	88	87	83	77	-12
Ysgol Gynradd Abermorddu (CS)	187	185	181	179	181	-6
Ysgol Estyn, Yr Hob (CS)	203	204	203	203	203	0
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam (CS)	95	94	98	101	102	+7
Cyfanswm	**613**	**606**	**602**	**600**	**597**	
Capasiti	**706**	**706**	**706**	**706**	**706**	
Nifer y lleoedd heb eu llenwi	**93**	**100**	**104**	**106**	**109**	

% heb eu llenwi	**13.17**	**14.16**	**14.73**	**15.01**	**15.43**

(Ffynhonnell: Mai 2015, gan ddefnyddio CYBLD Ionawr 2015 a data Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

4.11 Mae'r nifer gwirioneddol o ddisgyblion llawn amser (ALl) ar y gofrestr ym mis Medi 2015 ar gyfer Ysgol Llanfynydd yn 34 (Ffynhonnell: Y System ONE). Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei gwirio gydag Ysgol Llanfynydd a Thîm Gwybodaeth Rheoli Ysgolion Sir y Fflint.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd ymgynghoriad statudol ar newid trefniadaeth ysgol yn achosi lefel o ansicrwydd o fewn cymuned yr ysgol leol, a all fod yn ffactor sy'n cyfrannu at ostyngiad yn y nifer o ddisgyblion.

Yn seiliedig ar ffigurau newydd disgyblion ar gyfer Medi mae ailasesiad o'r rhagamcanion disgyblion yn yr ysgol fel a ganlyn.

Ysgol	Union Medi 2015	Medi 2016	Medi 2017	Medi 2018	Medi 2019	Medi 2020	+/-
Ysgol Llanfynydd	34	31	30	31	32	34	0
Capasiti	80	80	80	80	80	80	
Lleoedd heb eu llenwi	46	49	50	49	48	46	
Lleoedd heb eu llenwi %	57.5%	61.25%	62.5%	61.25%	60%	57.5%	

Mae rhagamcan nifer y disgyblion wedi gostwng, yn bennaf o ganlyniad i golli grŵp blwyddyn 6 yn symud i'r ysgol uwchradd a nifer derbyn isel i'r ysgol, a rhai disgyblion yn symud mewn grwpiau blwyddyn eraill i ysgolion eraill gyda hyn yn arwain at gyfartaledd derbyn llai. Mae'r union niferoedd o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr ym Medi 2015 wedi cael ei wirio gydag Ysgol Llanfynydd a Thîm Gwybodaeth Rheoli Ysgolion Sir y Fflint. Er hwylustod cyfeirio, bydd ffigurau CYBLD swyddogol Ionawr 2015 yn cael eu defnyddio yng ngweddill y ddogfen.

4.12 Mae'r tabl isod yn dangos y gyfradd genedigaethau hanesyddol ar gyfer y cyfnod 2008-2013 ar gyfer Llanfynydd a'r cyffiniau. Nid oes cynnydd sylweddol mewn cyfraddau geni yn ardal Llanfynydd, a'r ardal gyfagos.

Ward	Genedigaethau Hanesyddol					
	2008	2009	2010	2011	2012	2013
Caergwrle	14	18	11	18	20	19
Higher Kinnerton	18	22	8	8	16	11
Yr Hob	25	20	23	22	19	22

Leeswood (haneru rhwng SPPA Yr Wyddgrug/Yr Hob)	14	9	17	13	12	21
Llanfynydd	13	15	20	11	19	16
Penyffordd	35	24	28	34	27	29
Treuddyn	15	18	11	14	7	12
CYFANSWM	**134**	**126**	**118**	**120**	**120**	**130**

(Ffynhonnell: darparwyd gan y Tîm Gwybodaeth Rheoli Ysgolion)

4.13 Lle mae lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion yn dod yn anghymesur gall gael effaith negyddol ar adnoddau ar gyfer addysg. Yn 2012 cyhoeddodd Estyn[2] 'Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion?' Mae'r ddogfen hon ar gael yn http://www.estyn.gov.uk/english/docViewer/244416.9/how-do-surplus-places-affect-the-resources-available-for-expenditure-on-improving-outcomes-for-pupils-may-2012/?navmap=30,163

Dywedodd Estyn 'lle mae lefel uwch nag sy'n angenrheidiol o leoedd ysgol, mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon lle gellid eu defnyddio'n well i wella ansawdd yr addysg i bob dysgwr'.

4.14 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i bob awdurdod yng Nghymru i leihau lleoedd heb eu llenwi ar draws y sir gyfan i 10% ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae'n angenrheidiol cael lefel benodol o leoedd heb eu llenwi fel y gall ysgolion ymateb yn unol â hynny i amrywiadau yn nifer y disgyblion i ateb y galw gan rieni yn ddigonol tra'n cynnal cydbwysedd y ddarpariaeth.

4.15 Lle mae lleoedd heb eu llenwi yn lleihau mae'n caniatáu i adnoddau ariannol gael eu hail-gyfeirio, yn benodol ar gyfer addysgu a dysgu yn ein hysgolion. Nid yw lleihau nifer y lleoedd heb eu llenwi yn ymarfer ym maes rheoli adnoddau yn unig, ond yn rhan o strategaeth ehangach i wella canlyniadau a safonau ar gyfer pob disgybl yn y tymor hir.

4.16 Dylai datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion hefyd ystyried cynlluniau lleol, gan gynnwys tai. Mae nifer y disgyblion posibl y gellid ei gynhyrchu o ddatblygiadau tai newydd yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla cynnyrch tai. Mae'r fformiwla cynnyrch tai wedi deillio o ymchwilio i waith sawl awdurdod.

Mae'r fformiwla cynnyrch tai presennol ar gyfer ysgolion cynradd fel a ganlyn: -

Nifer yr unedau tai x 0.24 (fformiwla ysgolion cynradd) = plentyn/disgybl

Mae'r ceisiadau cynllunio presennol a gymeradwywyd ar gyfer datblygu tai yn ardal Llanfynydd yn cael eu rhestru isod.

[2] Mae Estyn yn annibynnol o, ond yn cael ei ariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'r ffigurau cynnyrch tai'r ffigwr uchaf ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth dewis a/neu symudiad rhieni h.y. disgyblion sy'n symud i gartrefi newydd ond sydd eisoes yn y system addysg leol.

Datblygiadau Tai Posibl - Llanfynydd

Cyfeirnod Cynllunio	Nifer yr unedau	Disgrifiad	Cynnyrch posibl (Cynradd yn unig)
Dim wedi eu canfod			

Datblygiadau Tai Posibl – Treuddyn

Cyfeirnod Cynllunio	Nifer yr unedau	Disgrifiad	Cynnyrch posibl Plentyn/Disgybl (Cynradd yn unig)
Dim wedi eu canfod			

Datblygiadau Tai Posibl - Abermorddu/Yr Hob/Caergwrle

Cyfeirnod Cynllunio	Nifer yr unedau	Disgrifiad	Cynnyrch posibl Plentyn/Disgybl (Cynradd yn unig)
18961	28	Bridge Farm Caergwrle	7
48471	35	Ysgol Gynradd Abermorddu	8

Bydd cyflymder datblygiadau tai yn cael ei gyfyngu gan gynlluniau'r perchenogion/datblygwyr safle, y farchnad dai, hinsawdd economaidd bresennol a ffactorau eraill sy'n anrhagweladwy.

Mae'r Cyngor yn fodlon, os bydd Ysgol Llanfynydd yn cau, bod gan y rhwydwaith ysgol leol y gallu i gynnal effaith bosibl angenrheidiol datblygiadau tai presennol a'r dyfodol.

Yn y dyfodol, os bydd yna broblemau gyda chapasiti ysgolion yn yr ardal leol, mae Canllaw Cynllunio Lleol Nodyn 23 yn rhoi eglurhad ar y polisïau yng Nghynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint yn benodol mewn perthynas â chyfraniadau gan ddatblygwyr i gyfleusterau addysgol. Pan fydd datblygiad tai

newydd yn digwydd efallai y bydd y Cyngor yn gofyn am gyfraniadau gan ddatblygwyr er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn ar yr ysgol addas agosaf at eu datblygiad.

4.17 Mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio cynnal y ddarpariaeth bresennol o ansawdd uchel yn Llanfynydd a'r ardal gyfagos, fodd bynnag, os yw'r status quo yn cael ei gynnal, mae perygl y gallai ansawdd a safon yr addysg yn yr ardal ehangach gael ei effeithio'n andwyol gan na fyddai adnoddau'n cael ei wario ar gynnal a chadw adeiladau, gweinyddu ac arweinyddiaeth, ar draul addysgu a dysgu.

4.18 Mae lefel y caledi mae'r Cyngor yn ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf yn ddigynsail. Blaenoriaeth y Cyngor yw, cynnal ansawdd uchel y dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws y Sir ac mae'n parhau i fod. Mae caledi eisoes yn cael effaith uniongyrchol ar gyllidebau ysgolion, gan arwain at golli swyddi dysgu a llawer o oriau Cynorthwywyr Addysgu yn cael eu colli yn yr ysgolion eleni, er gwaethaf amddiffyn ysgolion uwchlaw gwasanaethau eraill. Gyda mwy a ddisgwylir yn y blynyddoedd nesaf, bydd gwneud dim yn arwain at gynnydd mewn cymarebau disgybl-athro, ac anallu i fynd i'r afael â'r amgylchedd dysgu.

4.19 Yng nghyd-destun yr heriau sy'n wynebu darpariaeth addysgol, lefel o galedi a chynaladwyedd y ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel, mae'r Cyngor yn cyflwyno'r cynnig hwn i gau Ysgol Llanfynydd o 31 Awst 2016 gyda disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn amodol ar ddewis y rhieni.

5. Manteision, anfanteision a risgiau'r cynnig

5.1 Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, disgwylir y bydd y manteision canlynol yn cael eu gwireddu.

1.	Byddai'r cynigion yn cynnal y safonau cyfredol ac ansawdd addysg ar gyfer y dyfodol y mae'r Cyngor yn ceisio parhau i'w gryfhau. Byddai'r cynnig, ym marn y Cyngor, yn parhau i wella safonau presennol addysg yn yr ardal ac yn y tymor hwy byddai er lles yr holl ddisgyblion o fewn yr ardal. (wedi'i gynnwys yn adran 7 y ddogfen hon)
2.	Byddai'r cynnig yn arwain at leihau lleoedd heb eu llenwi o fewn y rhwydwaith ysgolion cynradd yn unol â Pholisi Cenedlaethol.
3.	Byddai'r cynnig yn arwain at ostyngiad yn y costau fesul disgybl ar draws y rhwydwaith ysgolion cynradd.
4.	Byddai'r cynnig yn cyfrannu at fwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ystâd yr ysgol drwy ail-gyfeirio adnoddau i addysgu a dysgu.
5.	Mae'r cynnig yn gwarchod pob dysgwr yn Sir y Fflint rhag adnoddau sy'n lleihau.
6.	Byddai'r cynnig yn lleihau amser teithio i'r ysgol i rai o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol (gan dybio eu bod yn dewis eu hysgol leol).

5.2 Lle mae cynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu dwyn ymlaen bydd rhai anfanteision. Mae anfanteision y cynnig fel a ganlyn:

1.	Byddai'r cynnig yn arwain at gau Ysgol Llanfynydd, felly byddai darpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn dod i ben ym mhentref Llanfynydd.
2.	Efallai y bydd angen i'r rhan fwyaf o ddisgyblion deithio ymhellach i'r ysgol briodol agosaf a chynyddu amser teithio.
3.	Byddai'r cynnig yn effeithio ar staff, a allai gael eu hadleoli neu gael eu gwneud yn ddi-waith o ganlyniad i'r cynnig.

5.3 Mae llawer o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn deillio o anfanteision y cynnig a amlinellir uchod. Mae'r risgiau a'r mesurau sydd eu hangen i leihau neu ddileu effaith y risgiau hyn yn cael eu hamlinellu isod:

Anfanteision/Risg	Rheoli Risg
Efallai y bydd angen i nifer fach o ddisgyblion deithio ymhellach i'r ysgol	Bydd yn ofynnol i 17 o ddisgyblion sy'n byw yn ardal Llanfynydd deithio ymhellach i'r ysgol. Ar gyfer y disgyblion hynny pe baent yn dewis Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn, byddent yn gymwys ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim o dan y polisi cludiant cyfredol. Bydd costau cludiant, felly, yn cynyddu i adlewyrchu'r newid mewn demograffeg. Mae nifer o ddisgyblion yn Ysgol Llanfynydd yn byw yn sir Wrecsam, byddai asesiad cymhwyster cludiant yn cael ei reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd copi o'r ddogfen ymgynghori yn cael ei hanfon ymlaen atynt er gwybodaeth. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu cludiant am ddim pan fo plentyn yn byw dros ddwy filltir o bellter cerdded o'u hysgol gynradd briodol agosaf.
Gall staff gael eu hadleoli neu eu gwneud yn ddi-waith	Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gydag aelodau presennol o staff yn Ysgol Llanfynydd. Os ydynt yn dymuno ceisio cyfleoedd adleoli neu ymddeol bydd corff llywodraethu'r ysgol yn gweithredu ei bolisi newid sefydliadol a diswyddo ei hun. Bydd cefnogaeth i bob aelod o staff yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod hwn drwy dîm arweinyddiaeth yr Ysgol a'r Cyngor. Gall staff a ddadleolwyd gan y cynnig gael y cyfle i gael eu cyflogi yn y rhwydwaith ysgolion lleol.
Effaith negyddol ar gymuned Llanfynydd.	Mae'r Cyngor yn cydnabod lle mae yna gynnig i gau ysgol y bydd yn cael rhywfaint o effaith ar y gymuned. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a gwblhawyd ar gyfer y cynnig hwn wedi dangos, er bod rhywfaint o

	ddefnydd cymunedol o'r ysgol nid yw'n helaeth. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu efallai y bydd cyfle i'r gymuned barhau i ddefnyddio'r adeiladau. Cynhelir ymarfer ar wahân gan y Cyngor unwaith y bydd dyfodol yr ysgol wedi ei benderfynu. Gellir dod o hyd i'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy ddilyn y ddolen hon www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation

5.4 Bydd yr holl risgiau'n cael eu monitro fel rhan o Fwrdd Rhaglen Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint. Drwy fonitro a sicrhau bod dull cadarn i'r risgiau a'r anfanteision uchod gall yr effaith ar ddisgyblion/rhieni/gofalwyr/athrawon a staff cefnogi gael ei lleihau. Gellir gweld gwerthusiad o'r effaith ar ddisgyblion, athrawon a staff cefnogi yn adran 14 a 15 o'r ddogfen hon yn y drefn honno.

5.5 O ystyried y manteision, risgiau ac anfanteision uchod, mae'r Cyngor yn credu bod manteision tymor hir y cynnig yn fwy nag unrhyw anfanteision.

5.6 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ystyried yn ofalus nifer o opsiynau wrth lunio cynigion moderneiddio ysgolion ar gyfer Llanfynydd a'r ardal gyfagos. Wrth ystyried yr opsiynau hyn, cyfeiriwyd at brif amcanion y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a'r ysgogwyr allweddol ar gyfer Llanfynydd ac adolygiad ardal gyfagos fel y manylir yn adran 2 a 3 y ddogfen hon.

5.7 Mae nifer o opsiynau wedi cael eu hystyried gan gynnwys cynnal y status quo, ffederasiwn neu uno Ysgol Llanfynydd ag ysgol arall cyfrwng Saesneg.

5.8 Mae'r opsiynau sydd wedi cael eu harchwilio gan y Cyngor yn cael eu manylu yn adran 12 o'r ddogfen hon.

5.9 Mae'r cynnig hwn wedi cael ei ddatblygu yn unol â Chanllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (canllawiau diwygiedig yn 2014). Os bydd y rhieni/gofalwyr sy'n byw yn Sir y Fflint yn dewis anfon eu plentyn/plant i'r ysgol agosaf i'w cyfeiriad cartref, o bosibl byddai gan 17 o ddisgyblion hawl i gael cludiant am ddim i'r ysgol. Byddai cost flynyddol a amcangyfrifir am ddarpariaeth cludiant yn £16,150.

5.10 Mae rhai disgyblion fydd â mwy o bellter teithio o'r cartref i'r ysgol o'u lleoliad cartref i'r ysgol agosaf at eu cyfeiriad cartref. Ar gyfer y rhai ym mhentref Llanfynydd nid oes llwybrau cerdded ar gael y gellid eu defnyddio. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n byw yn ardal Llanfynydd byddai'r pellter a deithiwyd yn cynyddu, fodd bynnag, ni fyddai hyn yn fwy na chanllawiau teithio dysgwyr fel

y'i diwygiwyd yn 2014. Byddai'r llwybr o Lanfynydd i bentrefi cyfagos eraill, gan gynnwys pentrefi lle mae'r ysgolion eraill wedi cael eu nodi yn y ddogfen ymgynghoriad hon yn cael ei ystyried i fod yn llwybr peryglus i gyrraedd ato oherwydd ei leoliad gwledig gyda llwybrau cerdded diogel yn gyfyngedig i mewn ac allan o'r pentref.

5.11 Bydd gan ganran fechan o ddisgyblion lai o bellter teithio o'r cartref i'r ysgol o'u lleoliad cartref yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddant yn dewis yr ysgol agosaf at eu cyfeiriad cartref.

5.12 Mae nifer o ddisgyblion yn Ysgol Llanfynydd yn byw yn sir Wrecsam, byddai asesiad cymhwyster cludiant yn cael ei reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd copi o'r ddogfen ymgynghori yn cael ei hanfon ymlaen atynt er gwybodaeth. Gellir dod o hyd i bolisi cludiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn y ddolen ganlynol:-

http://www.wrexham.gov.uk/english/education/transport_policy.htm

5.13 Gellir dod o hyd i'r Asesiad o'r Effaith ar Drafnidiaeth ar gyfer y cynnig hwn yn y ddolen ganlynol:-

www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation

6. Beth fydd effaith y cynigion ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg?

6.1 Wrth lunio'r cynnig hwn rhoddwyd ystyriaeth ofalus i effaith debygol y cynnig ar ansawdd canlyniadau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i ymgyngoreion ynghylch y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Llanfynydd, Ysgol Parc Y Llan - Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn –Yr Hob, ac Ysgol Gynradd Bwlchgwyn - Wrecsam gyda gwerthusiad o'r effaith ar ansawdd a safonau addysg os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu.

Y ddarpariaeth bresennol: Ysgol Llanfynydd, Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hob ac Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam.

6.2 Mae Ysgol Llanfynydd wedi ei lleoli ym mhentref Llanfynydd. Mae Ysgol Llanfynydd yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 mlwydd oed. Mae'n Gategori 2 ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

6.3 Mae Ysgol Parc y Llan, Treuddyn wedi ei lleoli ym mhentref Treuddyn, tua 2.11 milltir o Ysgol Llanfynydd. Mae Ysgol Parc y Llan yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 mlwydd oed. Mae'n Gategori 1 ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

6.4 Mae Ysgol Gynradd Abermorddu wedi ei lleoli ym mhentref Abermorddu, tua 2.12 milltir o Ysgol Llanfynydd. Mae Ysgol Gynradd Abermorddu yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 mlwydd oed. Mae'n Gategori 3 ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

6.5 Mae Ysgol Estyn, yr Hob wedi ei lleoli ym mhentref yr Hob, tua 3.05 milltir o Ysgol Llanfynydd. Mae Ysgol Estyn yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Mae'n Gategori 3 ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

6.6 Mae Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam wedi ei lleoli ym mhentref Bwlchgwyn, tua 4.11 milltir o Ysgol Llanfynydd. Mae Ysgol Bwlchgwyn yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Mae'n Gategori 3 ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

6.7 Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ddisgyblion llawn a rhan amser ar y gofrestr ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd ddiwethaf yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2011-2015.

	Ionawr 2011		Ionawr 2012		Ionawr 2013		Ion 2014		Ionawr 2015	
Disgyblion	LlA	RhA	LlA	RhA	LlA	RhA	LlA	RhA	LlA	RhA
Ysgol Llanfynydd (CS)	45	8	48	3	44	3	39	5	42	5
Ysgol Parc y Llan, Treuddyn (CS)	77	10	71	15	76	12	85	9	86	12
Ysgol Gynradd Abermorddu (CS)	196	27	195	34	192	35	196	26	190	27
Ysgol Estyn, Yr Hob (CS)	181	28	186	26	193	24	204	27	199	30

Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam (CS)	88	16	87	19	93	23	95	23	93	15

(LlA – Llawn Amser, RhA – Rhan Amser)

6.8 Mae disgyblion yn Ysgol Llanfynydd yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran cymysg. Mae disgyblion yn Ysgol Parc y Llan – Treuddyn yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran cymysg. Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Abermorddu yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran unigol. Mae disgyblion yn Ysgol Estyn – yr Hob yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran sengl. Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran cymysg.

6.9 Mae'r tablau isod yn dangos y dadansoddiad o'r disgyblion yn ôl grŵp blwyddyn (yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2015)

	Ysgol Llanfynydd							
	Meithrin	Derbyn	Bl 1	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 5	Bl. 6
Ionawr 2015	5	5	4	5	4	7	9	8
Medi 2015	6	3	5	3	4	4	6	9

Mae dadansoddiad o ddisgyblion Ysgol Llanfynydd hefyd yn cynnwys nifer y disgyblion ym mis Medi 2015.

Ysgol Parc y Llan, Treuddyn							
Meithrin	Derbyn	Bl 1	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 5	Bl. 6
12	9	12	17	15	12	12	9

CYBLD Ionawr 2015

Ysgol Gynradd Abermorddu							
Meithrin	Derbyn	Bl 1	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 5	Bl. 6
27	21	30	24	28	29	28	30

CYBLD Ionawr 2015

Ysgol Estyn, Yr Hob							
Meithrin	Derbyn	Bl 1	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 5	Bl. 6
30	27	30	29	29	30	28	26

CYBLD Ionawr 2015

Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam							
Meithrin	Derbyn	Bl. 1	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 5	Bl. 6

15	16	11	14	13	12	15	12

CYBLD Ionawr 2015

6.10 Mae'r tablau ar y tudalennau canlynol yn dangos rhagamcanion manwl disgyblion ar gyfer Ysgol Llanfynydd a'r ysgolion priodol agosaf a enwir yn y dogfennau ac mae'n darparu rhagolygon disgyblion ar sail data cyfrifiad ysgolion.

Nifer y disgyblion llawn amser ar y gofrestr a Nifer Rhagamcanol y Disgyblion - Ysgol Llanfynydd (Nifer Rhagamcanol)
**Ffynhonnell: Ffigurau gwirioneddol CYBLD Ion (2015) Rhagamcanion (a gynhyrchwyd Mai 2015 gan ddefnyddio data CYBLD Ionawr 2015) (ffigurau rhagamcanol yn cael eu talgrynnu i fyny/lawr)*

Oedran	**Gwirioneddol Ionawr 15**	**Rhagamcanol Medi 15**	**Rhagamcanol Medi 16**	**Rhagamcanol Medi 17**	**Rhagamcanol Medi 18**	**Rhagamcanol Medi 19**
Derbyn	5	5	5	5	5	5
Blwyddyn 1	4	5	5	5	5	5
Blwyddyn 2	5	4	5	5	5	5
Blwyddyn 3	4	5	4	5	5	5
Blwyddyn 4	7	4	5	4	5	5
Blwyddyn 5	9	7	4	5	4	5
Blwyddyn 6	8	9	7	4	5	4
Cyfanswm ar y Gofrestr	42	39	35	33	34	34



*Nid yw'r ffigurau rhagamcanol o fis Medi 2015 wedi eu dangos uchod gan nad yw datganiadau swyddogol ysgolion yn ddyledus eto. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y nifer o ddisgyblion ar hyn o bryd ar UN System y Cyngor, bydd rhagamcanion ar gyfer Ysgol Llanfynydd yn lleihau, mae hyn yn ganlyniad net y nifer derbyn isel yn yr ysgol, a rhai disgyblion mewn grwpiau blwyddyn eraill yn

symud i ysgolion eraill. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd ymgynghori statudol o gwmpas newid trefniadaeth ysgolion yn achosi lefel o ansicrwydd o fewn cymuned yr ysgol leol, sy'n gallu bod yn ffactor sy'n cyfrannu at leihau nifer y disgyblion.

Nifer y disgyblion llawn amser ar y gofrestr a Nifer Rhagamcanol y Disgyblion - Ysgol Parc y Llan, Treuddyn (Nifer Rhagamcanol)

Ffynhonnell: Ffigurau gwirioneddol CYBLD Ion (2015) Rhagamcanion (a gynhyrchwyd Mai 2015 gan ddefnyddio data CYBLD Ionawr 2015) (ffigurau rhagamcanol yn cael eu talgrynnu i fyny/i lawr)

Oedran	Gwirioneddol Ionawr 15	Rhagamcanol Medi 15	Rhagamcanol Medi 16	Rhagamcanol Medi 17	Rhagamcanol Medi 18	Rhagamcanol Medi 19
Derbyn	9	12	11	11	11	11
Blwyddyn 1	12	9	12	11	11	11
Blwyddyn 2	17	12	9	12	11	11
Blwyddyn 3	15	17	12	9	12	11
Blwyddyn 4	12	15	17	12	9	12
Blwyddyn 5	12	12	15	17	12	9
Blwyddyn 6	9	12	12	15	17	12
Cyfanswm ar y gofrestr	86	89	88	87	83	77



Nifer y disgyblion llawn amser ar y gofrestr a Nifer Rhagamcanol y Disgyblion - Ysgol Gynradd Abermorddu (Nifer Rhagamcanol)

Ffynhonnell: Ffigurau gwirioneddol CYBLD Ion (2015) Rhagamcanion (a gynhyrchwyd Mai 2015 gan ddefnyddio data cyfrifiad Ionawr 2015) (ffigurau rhagamcanol yn cael eu talgrynnu i fyny/i lawr)

Oedran	Union Ion 15	Rhagamcanol Medi 15	Rhagamcanol Medi 16	Rhagamcanol Medi 17	Rhagamcanol Medi 18	Rhagamcanol Medi 19
Derbyn	21	27	26	25	26	26
Blwyddyn 1	30	21	27	26	25	26
Blwyddyn 2	24	30	21	27	26	25
Blwyddyn 3	28	24	30	21	27	26
Blwyddyn 4	29	28	24	30	21	27
Blwyddyn 5	28	29	28	24	30	21
Blwyddyn 6	30	28	29	28	24	30
Cyfanswm ar y Gofrestr	190	187	185	181	179	181



Nifer y disgyblion llawn amser ar y gofrestr a Nifer Rhagamcanol y Disgyblion - Ysgol Estyn, Yr Hob (Nifer Rhagamcanol)

Ffynhonnell: Ffigurau gwirioneddol CYBLD Ion (2015) Rhagamcanion (a gynhyrchwyd Mai 2015 gan ddefnyddio data cyfrifiad Ionawr 2015) (ffigurau rhagamcanol yn cael eu talgrynnu i fyny/i lawr)

Oedran	Union Ion 15	Rhagamcanol Medi 15	Rhagamcanol Medi 16	Rhagamcanol Medi 17	Rhagamcanol Medi 18	Rhagamcanol Medi 19
Derbyn	27	30	29	29	29	29
Blwyddyn 1	30	27	30	29	29	29
Blwyddyn 2	29	30	27	30	29	29
Blwyddyn 3	29	29	30	27	30	29
Blwyddyn 4	30	29	29	30	27	30
Blwyddyn 5	28	30	29	29	30	27
Blwyddyn 6	26	28	30	29	29	30
Cyfanswm ar y Gofrestr	199	203	204	203	203	203



Nifer y disgyblion llawn amser ar y gofrestr a Nifer Rhagamcanol y Disgyblion - Ysgol Bwlchgwyn (Nifer Rhagamcanol)

Ffynhonnell: Ffigurau gwirioneddol CYBLD Ion (2015) Rhagamcan a ddarperir gan Gyngor Sir Wrecsam

Oedran	Gwirioneddol Ionawr 15	Rhagamcanol Medi 15	Rhagamcanol Medi 16	Rhagamcanol Medi 17	Rhagamcanol Medi 18	Rhagamcanol Medi 2019
Derbyn	16	17	14	15	15	15
Blwyddyn 1	11	15	17	15	15	15
Blwyddyn 2	14	11	15	14	14	15
Blwyddyn 3	13	14	11	17	17	14
Blwyddyn 4	12	12	14	15	15	17
Blwyddyn 5	15	11	12	11	11	15
Blwyddyn 6	12	15	11	14	14	11
Cyfanswm ar y Gofrestr	93	95	94	98	101	102



6.11 Mae cyfartaleddau Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Ysgol Llanfynydd a'r ysgolion priodol agosaf ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd ddiwethaf yn cael eu darparu yn y tabl isod ochr yn ochr â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mewn rhai achosion mae'r set ddata yn anghyflawn gan y gallai hyn arwain at nodi disgyblion unigol oherwydd y niferoedd isel (* llai na 10 disgybl) o fewn y garfan gysylltiedig, felly, maent wedi cael eu gadael allan.

	2010	2011	2012	2013	2014
Ysgol Llanfynydd, Gweithredu gan yr Ysgol	13.2%	*	14.3%	14.6%	16.7%
Ysgol Parc y Llan, Treuddyn, Gweithredu gan yr Ysgol	*	22.4%	27.9%	21.7%	14.9%
Ysgol Gynradd Abermorddu, Gweithredu gan yr Ysgol	*	*	6.6%	4.2%	4.2%
Ysgol Estyn, Yr Hob Gweithredu gan yr Ysgol	15.9%	12.5%	8.9%	18.6%	14.9%
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam Gweithredu gan yr Ysgol	*	15.1%	17.3%	22.4%	16.9%
Cyfartaledd Gweithredu gan yr Ysgol Awdurdod Lleol Sir y Fflint	13.4%	13.0%	13.6%	12.6%	12.1%
Cyfartaledd Gweithredu gan yr Ysgol Awdurdod Lleol Sir y Fflint	12.6%	12.1%	12.7%	13.0%	13.0%
Cyfartaledd Cymru Gweithredu gan yr Ysgol	15.5%	15.2%	15.6%	15.2%	15.1%
Ysgol Llanfynydd, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	*	*	*	*	*
Ysgol Parc y Llan, Treuddyn, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	*	*	*	10%	8.1%
Ysgol Gynradd Abermorddu, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	6.7%	7.1%	6.6%	3.0%	3.0%
Ysgol Estyn, Yr Hob, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	*	*	5.7%	6.6%	4.6%
Ysgol Bwlchgwyn, Wrecsam, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	*	*	*	*	*
Cyfartaledd Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy Awdurdod Lleol Sir y Fflint	7.2%	7.1%	6.7%	7.1%	7.0%
Cyfartaledd Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy Awdurdod Lleol Wrecsam	3.4%	4.2%	4.9%	5.7%	5.7%

Cyfartaledd Cymru Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	8.5%	8.7%	8.9%	9.2%	8.8%
Ysgol Llanfynydd â Datganiad	*	*	*	*	*
Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn â Datganiad	*	*	*	*	*
Ysgol Gynradd Abermorddu â Datganiad	*	*	*	*	*
Ysgol Estyn, Yr Hob â Datganiad	*	*	*	*	*
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam â Datganiad	*	*	*	*	*
Cyfartaledd â Datganiad Awdurdod Lleol Sir y Fflint	1.9%	1.6%	1.4%	1.2%	1.3%
Cyfartaledd â Datganiad Awdurdod Lleol Wrecsam	2.9%	2.2%	1.7%	1.4%	1.3%
Cyfartaledd Cymru â Datganiad	2.0%	1.9%	1.8%	1.7%	1.7%

Ffynhonnell: Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru - Gorffennaf 2015

6.12 Nid oes unrhyw ddisgyblion gyda Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn Ysgol Llanfynydd ar hyn o bryd. Mae'r tabl isod yn dangos canrannau'r disgyblion gyda Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. Mewn rhai achosion mae'r set ddata yn anghyflawn gan y gallai hyn arwain at nodi disgyblion unigol (*llai na 10) oherwydd y niferoedd isel o fewn y garfan gysylltiedig ac felly maent wedi cael eu gadael allan.

	2010	2011	2012	2013	2014
Ysgol Llanfynydd	*	*	*	*	*
Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn	*	*	*	*	*
Ysgol Gynradd Abermorddu	*	*	*	*	*
Ysgol Estyn, Yr Hob	*	*	*	*	*
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam	*	*	*	*	*

Ffynhonnell: CYBLD Ionawr

6.13 Mae'r tabl isod yn dangos y cymarebau disgybl-athro ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf (2014).

Ysgol	Cymhareb
Ysgol Llanfynydd	16.9
Ysgol Parc y Llan, Treuddyn	22.4
Ysgol Gynradd Abermorddu	19.7
Ysgol Estyn, Yr Hob	24.2
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam	21.5

Ffynhonnell: Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru 2014 - ffynhonnell Awst 2015

6.14 Cafodd Ysgol Llanfynydd ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2009. Cynhaliwyd yr arolwg hwn o dan fframwaith blaenorol Estyn sydd bellach wedi'i ddiwygio. Rhagwelir y bydd arolwg o'r ysgol yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16, ar sail cylch 6 blynedd o arolygiadau. Mae'r Cyngor yn cydnabod efallai na fydd canfyddiadau adroddiad Estyn yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol yn yr ysgol, fodd bynnag, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion angen i ni gyfeirio at yr adroddiad arolygu diweddaraf.

Mae adroddiad Estyn yn cael ei grynhoi fel a ganlyn:

'Mae sgiliau a gweledigaeth y pennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi bod yn ffactorau allweddol wrth sicrhau llwyddiant a gwelliant yr ysgol. Mae lles ac addysg y dysgwyr wrth wraidd amcanion a gwerthoedd yr ysgol ac adlewyrchir hyn yn glir yn ei hethos a'i harferion dyddiol.

Mae barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunanarfarnu yn cytuno â chanfyddiadau'r tîm arolygu mewn tri o'r saith cwestiwn allweddol. Lle maent yn gwahaniaethu mewn pedwar cwestiwn allweddol, roedd y graddau a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn is na barn y tîm arolygu.

Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â phedwar o'r pum mater allweddol a nodwyd yn adroddiad arolygu 2003. Mae gweithredu proses hunanarfarnu systematig yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau'r ysgol.'

Cwestiwn Allweddol	**Gradd arolygu**
1 Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3 Pa mor dda mae'r profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 3

4 Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 2
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 2
6 Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 3
7 Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

Dyfarniad	Ystyr
Gradd 1	Da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	Llawer o ddiffygion pwysig

Argymhellion	
A1	sicrhau bod holl ofynion Cwricwlwm 2008 yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwaith cyfnod allweddol 2; a
A2	datblygu portffolios pwnc ymhellach ar gyfer pynciau craidd a sylfaen; a
A3	datblygu systemau hunanarfarnu mwy cynhwysfawr a systematig; a
A4	cryfhau cysylltiadau â'r diwydiant a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo sgiliau entrepreneuraidd y dysgwyr.

Adroddiad llawn Estyn ar gael yn y ddolen ganlynol:

http://www.estyn.gov.wales/provider/llanfynydd-cp-school

6.15 Arolygwyd Ysgol Parc y Llan, Treuddyn ddiwethaf gan Estyn ym mis Ebrill 2015.

Mae adroddiad Estyn yn cael ei grynhoi fel a ganlyn:

Perfformiad presennol yr ysgol	**Da**
Rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant	**Da**

Dyfarniad	Ystyr

Ardderchog	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer arweiniol o fewn y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig angen gwelliant sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau

Cwestiwn Allweddol	Perfformiad yr Ysgol
CA1 - Pa mor dda yw'r canlyniadau?	**Da**
Safonau	Da
Lles	Da
CA2 - Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	**Da**
Profiadau dysgu	Da
Addysgu	Da
Gofal, cefnogaeth ac arweiniad	Da
Yr amgylchedd dysgu	Da
CA3 - Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?	**Da**
Arweinyddiaeth	Da
Gwella ansawdd	Da
Gwaith partneriaeth	Da
Rheoli adnoddau	Da

Perfformiad Cyfredol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn ac yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- Mae'r ysgol yn ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i drosglwyddo eu sgiliau llythrennedd yn llwyddiannus ar draws gwahanol feysydd pwnc
- Mae mwyafrif y disgyblion yn gweithio'n frwdfrydig ac yn dyfalbarhau'n dda gyda thasgau
- Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol tuag at gyflawni eu targedau unigol
- Mae safon ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol bob amser yn uchel
- Mae gan yr holl athrawon berthynas waith dda iawn gyda'u disgyblion ac maent yn annog agwedd gadarnhaol at ddysgu
- Mae gan athrawon ddarlun cywir o gyrhaeddiad disgyblion ac maent yn gosod targedau unigol priodol ar gyfer cynnydd a gwelliant
- Mae yna ethos cynhwysol a gofalgar lle caiff pob disgybl ei werthfawrogi

Rhagolygon ar gyfer gwella
Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod: • Gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer gwelliant parhaus yr ysgol, sy'n cael ei rhannu gan staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion • Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau staff yn glir ac mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn yr ysgol • Mae'r corff llywodraethu yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn dda • Mae yna ymrwymiad cadarn drwy'r ysgol i hyrwyddo gwelliant • Mae'r broses hunanarfarnu yn gadarn ac mae canlyniadau yn llywio cynllunio gwelliant yn uniongyrchol • Mae strategaethau gwella'r ysgol wedi arwain at ganlyniadau mesuradwy ar gyfer disgyblion

Argymhellion	
A1	Gwella hyder y disgyblion i gyfathrebu yn Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg
A2	Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau ynghylch beth a sut maent yn dysgu
A3	Sicrhau bod disgyblion yn gwybod pa mor dda y maent yn ei wneud, a rhoi arweiniad a chyfleoedd iddynt wella eu gwaith

Adroddiad llawn Estyn ar gael yn y ddolen ganlynol:

http://www.estyn.gov.wales/provider/ysgol-parc-y-llan

6.16 Ysgol Gynradd Abermorddu, arolygwyd ddiwethaf gan Estyn ym Mai 2013.

Roedd adroddiad Estyn yn crynhoi fel a ganlyn:

Perfformiad presennol yr ysgol	**Da**
Rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant	**Da**

Dyfarniad	Ystyr
Ardderchog	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer arweiniol o fewn y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso meysydd cryfderau

Cwestiwn Allweddol	Perfformiad yr Ysgol
CA1 - Pa mor dda yw'r canlyniadau?	**Da**
Safonau	Da
Lles	Da
CA2 - Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	**Da**
Profiadau dysgu	Da
Addysgu	Da
Gofal, cefnogaeth ac arweiniad	Da
Yr amgylchedd dysgu	Da
CA3 - Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?	**Da**
Arweinyddiaeth	Da
Gwella ansawdd	Da
Gwaith partneriaeth	Da
Rheoli adnoddau	Da

Perfformiad Cyfredol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda iawn, yn gwrtais ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu;
- profiadau dysgu cyfoethog ac addysgu o ansawdd da yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cymell ac yn cymryd rhan;
- mae'r ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol sy'n hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth; ac
- mae ansawdd da'r gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad a ddarperir i ddisgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles.

Rhagolygon ar gyfer gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar wella lles a safonau disgyblion;
- pob aelod o staff yn deall eu rolau, yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau gwella ysgolion;
- gweithdrefnau hunanarfarnu yn nodi meysydd datblygu yn gywir; ac
- mae trefniadau partneriaeth cadarnhaol yn cyfrannu'n dda at y safonau a lles disgyblion.

Argymhellion	
A1	Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol
A2	Sicrhau cysondeb mewn asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith eu hunain
A3	Sicrhau bod y corff llywodraethu yn cyfrannu'n fwy effeithiol at hunanarfarnu
A4	Ymestyn cyfleoedd i athrawon gymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol ac i rannu arfer da y tu hwnt i'r ardal leol

Adroddiad llawn Estyn ar gael yn y ddolen ganlynol:

http://www.estyn.gov.wales/provider/abermorddu-cp-school

6.17 Cafodd Ysgol Estyn, Yr Hob ei harolygu ddiwethaf gan Estyn, y corff sy'n arolygu ysgolion ym mis Medi 2010 a chafodd ei rhoi yn y categori dilynol ar gyfer Monitro gan Estyn. Fodd bynnag, pan ailymwelwyd ag Ysgol Estyn gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Gymru ddeuddeg mis yn ddiweddarach, roedd arweinyddiaeth wedi newid yn yr ysgol a barnwyd ei bod wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr holl argymhellion a chafodd ei thynnu o unrhyw weithgarwch dilynol. Y farn bresennol o'r ysgol gan y Cyngor a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol yw bod Ysgol Estyn, Yr Hob yn ysgol 'dda', sydd angen 'ychydig' o gefnogaeth yn unig.

Mae adroddiad gwreiddiol Estyn o 2010 yn cael ei grynhoi fel a ganlyn ond nid yw bellach yn gynrychiolaeth gywir o berfformiad cyfredol yr ysgol:

Perfformiad presennol yr ysgol	**Digonol**
Rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant	**Digonol**

Dyfarniad	Ystyr
Ardderchog	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer arweiniol o fewn y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig angen gwelliant sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso meysydd cryfderau

Cwestiwn Allweddol	Perfformiad yr Ysgol
CA1 - Pa mor dda yw'r canlyniadau?	Digonol
Safonau	Digonol
Lles	Digonol
CA2 - Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
Profiadau dysgu	Digonol

Addysgu	Digonol
Gofal, cefnogaeth ac arweiniad	Da
Yr amgylchedd dysgu	Da
CA3 - Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?	Digonol
Arweinyddiaeth	Digonol
Gwella ansawdd	Digonol
Gwaith partneriaeth	Da
Rheoli adnoddau	Digonol

Perfformiad Cyfredol
Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd: • Er bod safonau yn dda yn gyffredinol, mae disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn gwneud cynnydd annigonol wrth ddatblygu eu sgiliau darllen ac ysgrifennu. • Mae angen datblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion ymhellach. • Nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cael eu herio'n ddigonol. • Nid yw systemau asesu yn cael eu datblygu'n llawn ar draws yr ysgol. • Mae'r dull ysgol gyfan tuag at reolaeth strategol yn foddhaol.

Rhagolygon ar gyfer gwella
Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd: • Nid yw cynllunio strategol i sicrhau gwelliannau yn ddigon trylwyr. • Nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn â rhai o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

Argymhellion	
A1	gwella medrau disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu'n annibynnol ym Mlynyddoedd 1 a 2, a monitro eu cynnydd trwy ddefnyddio asesiadau cywir
A2	datblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion ymhellach;
A3	sicrhau bod gwersi'n cynnig digon o her i ddisgyblion mwy galluog
A4	ehangu trefniadau olrhain cynnydd a datblygu cyfranogiad disgyblion wrth osod targedau ar gyfer gwella
A5	mireinio trefniadau cynllunio datblygiad yr ysgol er mwyn sicrhau gwelliannau ysgol gyfan.

Adroddiad llawn Estyn ac Adroddiad Monitro ar gael yn y ddolen ganlynol:

http://www.estyn.gov.wales/provider/ysgol-estyn-cp

6.18 Cafodd Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Hydref 2013. Cafodd ei rhoi mewn categori pryder difrifol ar y pryd - Mesurau Arbennig - ac ymwelodd Estyn â hi bob tymor. Erbyn Tachwedd 2014 roedd Estyn o'r farn fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn, ac mewn llawer o achosion, cynnydd cadarn iawn yn erbyn ei argymhellion a chafodd yr ysgol ei thynnu o'r categori pryder hwn. Barn gyfredol Awdurdod Addysg Lleol Wrecsam a'r Gwasanaeth Rhanbarthol ar gyfer Gwella Ysgolion yw bod Ysgol Gynradd Bwlchgwyn yn ysgol 'dda' sydd angen ychydig o gefnogaeth yn unig.

Mae adroddiad gwreiddiol Estyn o 2013 yn cael ei grynhoi fel a ganlyn ond nid yw bellach yn gynrychiolaeth gywir o berfformiad cyfredol yr ysgol:

Perfformiad presennol yr ysgol	**Digonol**
Rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant	**Anfoddhaol**

Dyfarniad	Ystyr
Ardderchog	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer arweiniol o fewn y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig angen gwelliant sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso meysydd cryfderau

Cwestiwn Allweddol	Perfformiad yr Ysgol
CA1 - Pa mor dda yw'r canlyniadau?	**Digonol**
Safonau	Digonol
Lles	Da
CA2 - Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	**Anfoddhaol**
Profiadau dysgu	Anfoddhaol
Addysgu	Anfoddhaol
Gofal, cefnogaeth ac arweiniad	Anfoddhaol
Yr amgylchedd dysgu	Anfoddhaol
CA3 - Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?	**Anfoddhaol**
Arweinyddiaeth	Anfoddhaol
Gwella ansawdd	Anfoddhaol
Gwaith partneriaeth	Da
Rheoli adnoddau	Anfoddhaol

Perfformiad Cyfredol
Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod: • safonau lles y rhan fwyaf o ddisgyblion yn uchel; • safon siarad a gwrando y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda; • llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn dda a chyda rhuglder a diddordeb; • y rhan fwyaf o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda; • gan yr ysgol ethos croesawgar a chefnogol i ddisgyblion. Fodd bynnag: • mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn unig gyda'u dysgu; • nid yw safonau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn gyson ddigon da; • mae diffygion yn yr addysgu ac asesu yn y mwyafrif o wersi

Rhagolygon ar gyfer gwella
Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd: • Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd bod: gan yr ysgol hanes gwael o godi safonau neu wella darpariaeth; • systemau ar gyfer hunanarfarnu yn wan iawn ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson; • cynllunio gwelliant ysgol yn methu canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol neu osod targedau clir a mesuradwy ar gyfer gwella; • llawer o staff yn aneglur ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau; • mae'r ysgol yn gwneud defnydd annigonol o ddata i fonitro ei chynnydd neu gynnydd y mentrau

Argymhellion	
A1	Codi safonau darllen disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac ysgrifennu yn y ddau gyfnod allweddol
A2	Codi safonau rhifedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 2
A3	Gwella ansawdd yr addysgu yn enwedig o ran darparu lefelau uchel o her i'r holl ddisgyblion
A4	A4 Rhoi adborth mwy manwl a rheolaidd i ddisgyblion fel eu bod yn gwybod sut i wella eu gwaith
A5	Defnyddio data a systemau tracio yn effeithiol i fonitro cynnydd yr holl ddisgyblion yn enwedig y rhai sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u dysgu

A6	Nodi'n glir y rolau a chyfrifoldebau'r holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn atebol am ddarpariaeth yr ysgol a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion
A7	Defnyddio system gadarn a thrylwyr o hunanarfarnu i nodi'n glir a monitro cryfderau a diffygion yr ysgol
A8	Defnyddio canlyniadau'r hunanarfarnu i flaenoriaethu targedau clir a mesuradwy yn effeithiol ar gyfer gwella'r ysgol wedi'i gysylltu'n gywir i ganlyniadau disgyblion
A9	Mynd i'r afael â'r diffygion o ran diogelu

Adroddiad llawn Estyn ac Adroddiad Monitro ar gael yn y ddolen ganlynol:

http://www.estyn.gov.wales/provider/bwlchgwyn-cp-school

6.19 Mae'r data a gynhwysir o fewn y tablau isod yn rhoi canlyniadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed) a Chyfnod Allweddol 2 (11 oed) ar gyfer Ysgol Llanfynydd; Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hob ac Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam yn erbyn eu cyfartaleddau lleol, cenedlaethol a theulu priodol am y tair blynedd ddiwethaf o ddata wedi ei gwirio (2012-2014).

Mae Dangosydd Deilliant y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflawni pan fydd y meincnod cenedlaethol ar gyfer plant 7 oed (Deilliant 5 neu'n uwch) yn cael ei gyrraedd gan ddisgybl yn y tri maes craidd dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

Mae'r Dangosydd Pwnc Craidd yn cael ei gyflawni pan fydd y meincnod cenedlaethol ar gyfer plant 11 oed (Y Cwricwlwm Cenedlaethol Lefel 4 neu uwch) yn cael ei gyrraedd gan ddisgybl yn y tri phwnc craidd, sef Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Fel ysgol fach, mae maint y carfannau o ddisgyblion yn y flwyddyn asesu statudol yn Ysgol Llanfynydd wedi bod yn gyson is na'r nifer lle mae'n ofynnol iddynt rannu data yn y parth cyhoeddus a byddai'n cyfrif am ei fod yn absennol o wefannau fel Fy Ysgol Leol. Mae hon yn weithdrefn y cytunwyd arni gan Lywodraeth Cymru i amddiffyn disgyblion unigol a allai gael eu hadnabod yn hawdd. Fodd bynnag, at ddibenion y ddogfen ymgynghori hon mae'n cael ei chynnwys isod.

Fel ysgol fach gyda charfannau bach iawn o ddisgyblion, lle gall un disgybl gynrychioli canran uchel neu hyd yn oed bob un o'r garfan, mae angen cydnabod bod cymharu perfformiad o flwyddyn i flwyddyn yn ystadegol annibynadwy ac mae angen eu trin yn ofalus.

7 oed	**Dangosydd Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen**		
	2012	**2013**	**2014**
Ysgol Llanfynydd	77.8%	75.0%	100%
Cyfartaledd Teulu	76.5%	80.5%	85.6%
Cyfartaledd Lleol	79.7%	84.4%	84.5%
Cyfartaledd Cenedlaethol	80.5%	83.0%	85.2%

7 oed	**Dangosydd Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen**		
	2012	**2013**	**2014**
Ysgol Parc y Llan	83.3%	100%	90.9%
Cyfartaledd Teulu	79.4%	87.4%	89.7%
Cyfartaledd Lleol	79.9%	84.4%	84.5%
Cyfartaledd Cenedlaethol	80.5%	83.0%	85.2%

7 oed	**Dangosydd Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen**		
	2012	**2013**	**2014**
Ysgol Gynradd Abermorddu	83.3%	92.6%	82.8%
Cyfartaledd Teulu	84.3%	89.2%	89.9%
Cyfartaledd Lleol	79.9%	84.4%	84.5%
Cyfartaledd Cenedlaethol	80.5%	83.0%	85.2%

7 oed	**Dangosydd Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen**		
	2012	**2013**	**2014**
Ysgol Estyn, Yr Hob	80.0%	83.3%	86.7%
Cyfartaledd Teulu	81.4%	85.3%	90.7%
Cyfartaledd Lleol	79.9%	84.4%	84.5%
Cyfartaledd Cenedlaethol	80.5%	83.0%	85.2%

7 oed	**Dangosydd Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen**		
	2012	**2013**	**2014**

Ysgol Gynradd Bwlchgwyn Wrecsam	100.0%	85.7%	91.7%
Cyfartaledd Teulu	90.2%	85.1%	91.7%
Cyfartaledd Lleol	83.3%	83.4%	82.9%
Cyfartaledd Cenedlaethol	80.5%	83.0%	85.2%

11 oed	**Dangosydd pwnc craidd**		
	2012	**2013**	**2014**
Ysgol Llanfynydd	71.4%	100%	75.0%
Cyfartaledd Teulu	79.1%	87.6%	83.6%
Cyfartaledd Lleol	81.3%	85.0%	86.1%
Cyfartaledd Cenedlaethol	82.6%	84.3%	86.1%

11 oed	**Dangosydd pwnc craidd**		
	2012	**2013**	**2014**
Ysgol Parc y Llan	77.8%	100%	92.3%
Cyfartaledd Teulu	90.2%	87.1%	92.6%
Cyfartaledd Lleol	81.3%	85.0%	86.1%
Cyfartaledd Cenedlaethol	82.6%	84.3%	86.1%

11 oed	**Dangosydd pwnc craidd**		
	2012	**2013**	**2014**
Ysgol Gynradd Abermorddu	69%	82.8%	93.1%
Cyfartaledd Teulu	85.6%	86.2%	91.5%
Cyfartaledd Lleol	81.3%	85.0%	86.1%
Cyfartaledd Cenedlaethol	82.6%	84.3%	86.1%

11 oed	**Dangosydd pwnc craidd**		
	2012	**2013**	**2014**
Ysgol Estyn, Yr Hob	96.0%	79.3%	93.9%
Cyfartaledd Teulu	89.1%	89.3%	91.9%
Cyfartaledd Lleol	81.3%	85.0%	86.1%
Cyfartaledd Cenedlaethol	82.6%	84.3%	86.1%

11 oed	Dangosydd pwnc craidd		
	2012	**2013**	**2014**
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam	82.4%	90.0%	92.9%
Cyfartaledd Teulu	90.8%	91.5%	93.2%
Cyfartaledd Lleol	84.5%	85.4%	84.2%
Cyfartaledd Cenedlaethol	82.6%	84.3%	86.1%

6.20 Mae'r System Categoreiddio Ysgolion Cenedlaethol bellach wedi cael ei gyflwyno yng Nghymru. Mae'r System Categoreiddio Ysgol Cenedlaethol yn darparu ffordd glir a syml o ddeall pa mor dda mae ysgol yn perfformio ar gyfer ei holl ddisgyblion, pa mor effeithiol y caiff ei harwain a'i rheoli, ansawdd yr addysgu a'r dysgu a lefel y gefnogaeth a herio mae ei angen i wneud hyd yn oed yn well.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion i'w gweld yn y ddogfen canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu diffiniadau ar gyfer pob un o'r canlyniadau.

Bydd categoreiddio pob ysgol yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn; mae'r wybodaeth categoreiddio ddiweddaraf o fis Ionawr 2014 ar gyfer Ysgol Llanfynydd, Ysgol Parc y Llan, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hob, ac Ysgol Gynradd Bwlchgwyn yn cael ei harddangos isod:

Ysgol Llanfynydd	
Grŵp Safonau	2
Capasiti Gwella	B
Categori Cefnogi	Melyn

Ysgol Parc y Llan, Treuddyn	
Grŵp Safonau	1
Capasiti Gwella	B
Categori Cefnogi	Melyn

Ysgol Gynradd Abermorddu	
Grŵp Safonau	3
Capasiti Gwella	B
Categori Cefnogi	Melyn

Ysgol Estyn, Yr Hob	
Grŵp Safonau	3
Capasiti Gwella	B
Categori Cefnogi	Melyn

Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam	
Grŵp Safonau	3
Capasiti Gwella	B
Categori Cefnogi	Melyn

Crynodeb o'r Data: Ffynhonnell ysgolion cynradd lleol (Ionawr 2014): Fy ysgol leol:-

	Ysgol Llanfynydd	**Ysgol Parc y Llan, Treuddyn**	**Ysgol Gynradd Abermorddu**	**Ysgol Estyn, Yr Hob**	**Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam**
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Blwyddyn: 2014) gan gynnwys disgyblion meithrin	44	94	222	231	118
Prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd (Blwyddyn: 2014)	19.3	11.3	7.8	10.8	3.0
Cymhareb Disgybl-Athro (Blwyddyn: 2014)	16.9	22.4	19.7	24.2	21.5
% Presenoldeb yn ystod y flwyddyn (Blwyddyn: 2014)	96%	95.7%	95.7%	95.9%	96.1%
Cyllideb ysgol fesul disgybl (Blwyddyn: 2015)	5,111	3,727	3,022	3,128	3,496

Categori cefnogi (Blwyddyn: 2014)	Melyn	Melyn	Melyn	Melyn	Melyn
% y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel a ddisgwylir yn y Meysydd Cyfnod Sylfaen o ddysgu (Blwyddyn: 2014)	*	90.9%	82.8%	86.7%	91.7%
% y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn: 2014)	*	92.3%	93.1%	93.9%	92.9%

6.21 Oherwydd dyrchafiad diweddar y pennaeth presennol yn Ysgol Llanfynydd, mae yna bennaeth dros dro gyda'r pennaeth presennol yn Ysgol Parc y Llan, Treuddyn. Mae gan Ysgol Parc y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hob ac Ysgol Gynradd Bwlchgwyn benaethiaid parhaol ar hyn o bryd.

6.22 Nid yw Ysgol Llanfynydd yn cynnig gofal cofleidiol[3]. Mae'r Pennaeth wedi nodi ar eu hasesiad o'r effaith ar y gymuned bod yr ysgol wedi dechrau gwasanaeth 'Grŵp Chwarae Montessori Bach i'r Pentrefwyr' a agorodd ym mis Medi 2015. Nid yw Ysgol Parc y Llan, Ysgol Gynradd Abermorddu ac Ysgol Estyn, Yr Hob, yn cynnig gofal cofleidiol ond mae ganddynt gysylltiadau da â grwpiau chwarae annibynnol yn yr ardal leol. Mae Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam yn cynnig gofal cofleidiol a elwir yn 'Criw Caban' ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar.

7. Gwerthuso effaith y cynnig ar ansawdd a safonau mewn addysg

[3] Mae gofal cofleidiol yn cael ei ddiffinio fel Gofal Plant a ddarperir yn yr ysgol y tu allan i oriau craidd blynyddoedd cynnar a gynigir fel sesiynau cyn-meithrinfa.

7.1 Barn y Cyngor yw os byddai'r cynnig presennol yn cael ei weithredu, byddai'n cynnal a pharhau i wella safon ac ansawdd yr addysg bresennol yn yr ardal. Mae'r adolygiad wedi mynd ati i fynd i'r afael â heriau o fewn yr ardal sydd â'r potensial i effeithio ar gynaladwyedd darpariaeth o ansawdd uchel yn y dyfodol. Mae'r cynnig hwn a chynigion cysylltiedig yn ceisio cynnal y safon ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gryfhau a gwella'r ddarpariaeth addysgol yn yr ardal am y rhesymau canlynol:

- Canlyniadau (safonau a lles)
- Darpariaeth (profiadau dysgu, addysgu, gofal, cefnogaeth ac arweiniad, a'r amgylchedd dysgu)
- Arwain a Rheoli (Arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Effaith ar Ganlyniadau - Safonau a Lles a Darparu'r Cwricwlwm

7.2 Barn y Cyngor yw y byddai'r cynnig o leiaf yn cynnal y safon gyfredol o ganlyniadau a chyrhaeddiad pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith. Byddai Ysgol Parc y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hob, Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam yn parhau i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

7.3 Mae canlyniadau disgyblion yn Ysgol Parc y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hob ac Ysgol Gynradd Bwlchgwyn wedi eu nodi yn adran 6 y ddogfen hon yn erbyn cyfartaledd lleol, cenedlaethol a'r teulu. Mae'r canlyniadau ar gyfer Llanfynydd a'r ardal gyfagos yn ei chyfanrwydd yn uwch na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol ac yn dangos bod darpariaeth addysgol o ansawdd uchel o fewn yr ardal yn ei chyfanrwydd. Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith byddai'r disgyblion presennol yn Ysgol Llanfynydd yn cael mynediad i ddarpariaeth amgen sydd â'r un safonau â'r hyn mae disgyblion yn ei derbyn ar hyn o bryd.

7.4 Mae Ysgol Parc y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hob ac Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam yn cynnig cwricwlwm llawn, eang a chytbwys. Os bydd y cynnig presennol yn cael ei roi ar waith, byddai'r pedair ysgol yn yr ardal yn gallu parhau i gyflwyno'r cwricwlwm yn y cyfnod sylfaen a'r cyfnod allweddol os byddent yn derbyn disgyblion o ganlyniad i weithredu'r cynnig hwn. Ni fyddai'r un o'r ysgolion yn yr ardal yn cael ei heffeithio'n andwyol o ran cyflwyno'r cwricwlwm os byddent yn derbyn disgyblion o ganlyniad i weithredu'r cynnig hwn.

7.5 Pe bai nifer y disgyblion yn codi yn unrhyw un o'r ysgolion eraill a nodwyd o ganlyniad i'r cynnig ni fyddai hyn yn cael effaith negyddol ar allu unrhyw ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm.

7.6 Mae disgyblion yn Ysgol Llanfynydd yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran cymysg o fewn eu cyfnod allweddol priodol.

Mae Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran cymysg.

Mae disgyblion Ysgol Gynradd Abermorddu yn cael eu haddysgu mewn un grŵp oedran.

Mae disgyblion Ysgol Estyn, Yr Hob yn cael eu haddysgu mewn un grŵp oedran.

Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran cymysg.

Yn Rhagfyr 2013, cyhoeddodd Estyn adroddiad 'Maint ysgol ac effeithiolrwydd addysgol'. Roedd yr astudiaeth wedi canfod bod ysgolion bach yn wynebu mwy o her o safbwynt darparu'r cwricwlwm. Mae hyn yn gysylltiedig â chyfyngiadau ariannol a wynebir gan ysgolion bach gan fod arian ysgolion yn gysylltiedig â nifer disgyblion. Lle mae nifer y disgyblion yn fach, mae ysgolion wedi eu cyfyngu gan y materion ariannu hyn wrth sefydlu corff staffio.

7.7 Mae ysgolion gyda nifer uwch o ddisgyblion fel Ysgol Parc y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu ac Ysgol Estyn, Yr Hob yn gallu recriwtio ystod ehangach o staff addysgu a thimau rheoli i gadarnhau arweinwyr pwnc a chwricwlwm. Mae gan staff fwy o gyfle i arbenigo mewn meysydd pwnc a gwybodaeth wahanol sy'n helpu i wella safonau a chanlyniadau. Mewn ysgolion bach, mae'n rhaid i staff gynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o ddisgyblion o wahanol oedrannau a galluoedd yn ddigonol; mae cyfleoedd datblygu staff yn llai lle mae llai o staff mewn ysgol.

8.0 Darpariaeth amgen

8.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod efallai y bydd rhieni/gofalwyr a disgyblion yn dymuno dewis ysgol heblaw eu hysgol briodol agosaf os gweithredir y cynnig presennol. Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ysgolion amgen a nodwyd o fewn yr ardal y gellir effeithio arnynt os datblygir y cynnig hwn. Gellir dod o hyd i wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r ysgolion hyn gan gynnwys adroddiadau mwyaf diweddar Estyn, canlyniadau ar ddiwedd y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2, niferoedd y disgyblion ar y gofrestr, rhagolygon disgyblion yn adran 4 a 6 yn y ddogfen hon.

8.2 Mae'r Cyngor wedi nodi ysgolion o fewn y Sir a hefyd un ysgol yn Wrecsam sydd agosaf at Ysgol Llanfynydd. Mae rhai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfynydd ar hyn o bryd yn byw mewn awdurdod cyfagos felly gall y cynnig hwn gael rhywfaint o effaith. Bydd y ddogfen hon yn cael ei hanfon at awdurdodau cyfagos fel rhan o'r ymgynghoriad.

8.3 Mae'r Cyngor wedi nodi'r ysgolion canlynol y gallai'r cynnig hwn ar gyfer Ysgol Llanfynydd effeithio arnynt fel a ganlyn:-

Ysgol Parc y Llan, Treuddyn
Ysgol Gynradd Abermorddu
Ysgol Estyn, Yr Hob
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam

Mae'r ysgolion hyn wedi eu cynnwys at ddibenion cymharol.

Ysgolion	Lleoliad	Pellter o Ysgol Llanfynydd (tua)	Math	Categori iaith
Ysgol Parc y Llan, Ffordd y Llan, Treuddyn, Yr Wyddgrug, CH7 4LN	Treuddyn	2.11 milltir	Cymuned	Cyfrwng Saesneg
Ysgol Gynradd Cymunedol Abermorddu, Cymau Lane, Abermorddu, LL12 9DH	Abermorddu	2.12 milltir	Cymuned	Cyfrwng Saesneg
Ysgol Estyn, Ffordd Penarlâg, Yr Hob, LL12 9NL	Yr Hob	3.05 milltir	Cymuned	Cyfrwng Saesneg
Ysgol Gynradd Gymunedol Bwlchgwyn, Ffordd Brymbo, Bwlchgwyn, Wrecsam, LL11 5UD	Bwlchgwyn	4.11 milltir	Cymuned	Cyfrwng Saesneg

Ffynhonnell Pellter: Route Finder 3.41 System Mapio Cyngor Sir y Fflint

9. Digonolrwydd Llety Ysgolion ac Effaith y Cynnig ar Ansawdd Llety

Rheoli Asedau

9.1 Mae'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol gadw data rheoli asedau ar gyfer portffolio eu hysgolion. Mae data rheoli asedau yn offeryn hanfodol i lywio penderfyniadau strategol (ynghyd â meini prawf arall) o ran rheoli adeilad ysgol ar gyfer materion megis blaenoriaethu rhaglen cynnal a chadw, prosiectau cyfalaf a newid sefydliadol ysgol.

9.2 Mae'r canllawiau rheoli asedau gan Gonsortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn gwneud y datganiad canlynol:

Mae'r prif ffyrdd ymarferol y gall yr ystâd weithredol effeithio'n andwyol ar ddarparu gwasanaethau fel a ganlyn:

a) Gweithredu o ormod o adeiladau

b) Tanwariant ar gynnal a chadw wedi'i gynllunio

c) Gweithredu o eiddo aneffeithlon

d) Diffyg buddsoddi mewn adeiladau/cyfleusterau priodol

Wrth adolygu adeiladau ysgolion, bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth gofynion statudol a chanllawiau bwletin adeilad perthnasol.

Gwybodaeth Cyflwr

9.3 Mae arolygon cyflwr ysgolion Sir y Fflint yn cael eu cynnal gan ymgynghorwyr allanol gan ddefnyddio canllawiau rheoli asedau'r Adran Addysg a Chyflogaeth ac yn cynnwys gwaith sy'n ofynnol o fewn y 5 mlynedd nesaf i sicrhau bod yr eiddo/adeilad hyd at safon dda. Fodd bynnag, mae mân waith cynnal a chadw o ddydd i ddydd (e.e. newid cloeon, gwydr wedi torri, wasier tap, ac ati) a mân waith arferol (e.e. arolygu, profion, glanhau, gwasanaethu, addasu, trawsnewid ac ati) yn gyffredinol yn cael eu heithrio oni bai eu bod yn cyflwyno perygl i fywyd neu byddai yn golygu risg sylweddol i iechyd a diogelwch os na wneir y gwaith. Mae arolygon yn cael eu graddio fel a ganlyn:

A - **Da.** Perfformio yn ôl y bwriad ac yn gweithredu'n effeithlon

B - **Boddhaol.** Perfformio fel y bwriadwyd, ond yn dangos ychydig o ddirywiad

C - **Gwael**. Arddangos diffygion mawr a/ neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd

D - **Gwael**. Disgwyliad oes wedi dod i ben a/neu risg difrifol o fethiant ar fin digwydd.

Gwybodaeth addasrwydd

9.4 Mae arolygon addasrwydd ysgolion Sir y Fflint yn cael eu cynnal gan swyddogion y Cyngor yn dilyn canllawiau rheoli asedau cenedlaethol adran addysg a chyflogaeth ac wedi'u graddio fel a ganlyn:

A - **Da**. Cyfleusterau addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles mewn ysgolion.

B - **Boddhaol.** Perfformio fel y bwriadwyd ond nid yw'n cefnogi'r cwricwlwm mewn rhai ardaloedd.

C - **Gwael.** Dulliau addysgu wedi eu rhwystro/effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol.

D - **Gwael.** Mae'r adeiladau yn amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i gyflwyno'r cwricwlwm

Mesur capasiti ysgolion

9.5 Mae'n ofynnol i holl awdurdodau lleol ddefnyddio dull gorfodol Llywodraeth Cymru o fesur capasiti ysgol trwy ddefnyddio'r ffurflen asesu i fesur capasiti ysgolion yng Nghymru.

9.6 Mae lleoedd heb eu llenwi yn deillio o gymharu capasiti llawn amser yr ysgol yn erbyn nifer y disgyblion llawn amser (nifer gwirioneddol y disgyblion) ac maent wedi'u categoreiddio fel a ganlyn ar System Rheoli Asedau'r Cyngor:

A - llai na 10% lle heb eu llenwi neu 3% dros gapasiti

B – 10-25% lle heb eu llenwi neu 4-10% dros gapasiti

C - mwy na 10% dros gapasiti

D – mwy na 25% lle heb eu llenwi neu

D - ysgolion bach sydd â llai na 90 o leoedd a mwy na 25% a 30 lle heb eu llenwi .

Sgoriau cyflwr ac addasrwydd

Ysgol	Cyflwr cyffredinol	Addasrwydd cyffredinol
Ysgol Llanfynydd	B	C
Ysgol Parc y Llan, Treuddyn	B	B
Ysgol Gynradd Abermorddu	B	C
Ysgol Estyn, Yr Hob	B	B

Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam	B	B

9.7 O'i gymharu â'r Adran Addysg a Sgiliau – Bwletin Adeilad 99, Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd, nodwyd y materion addasrwydd canlynol:-

Mae'r ddogfen bwletin adeilad 99 ar gael yn y ddolen ganlynol:-

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/288108/building_bulletin_99_-_briefing_framework_for_primary_school_projects.pdf

9.8 Materion Addasrwydd Ysgol Llanfynydd

Arolygwyd Ysgol Llanfynydd ar 15 Ionawr 2008 gan Gyngor Sir y Fflint, ac adolygwyd ar 14 Rhagfyr 2009 gan E C Harris, Built Asset Consultancy

- Dim ardal aros yn y dderbynfa, gan y gellir cael mynediad i weddill yr ysgol
- Y brif swyddfa a swyddfa'r pennaeth angen mynediad dan glo i'r adeilad
- Nid yw rhai dosbarthiadau'n bodloni'r isafswm maint safonol
- Dim cyfleuster ymarferol gwlyb yn y dosbarthiadau, neu lawr addas
- Cyfleusterau reprograffeg wedi'u lleoli yn y llyfrgell
- Ardaloedd cylchrediad ddim yn ddiogel
- Mae neuadd yr ysgol ymhell islaw'r isafswm maint safonol ac yn rhy fach i gynnig cyfleoedd diogel ac ystyrlon ar gyfer addysg gorfforol, drama a dawns
- Awyru mewn 2 ardal yn ymddangos yn ddiffygiol
- Mae ystafell y staff yn is na'r safon ofynnol ac mae'n rhy fach ar gyfer unrhyw fwrdd bwyta i staff
- Mae ardaloedd ymarferol yn gyfyngedig mewn maint
- Mae drws dianc yn yr ardal cylchrediad sy'n ymddangos angen ramp
- Mae cae chwarae'r ysgol oddi ar y safle, heb gyfleusterau newid neu gyfleusterau toiled a gellir ond eu cyrraedd drwy groesi'r brif ffordd drwy'r pentref
- Maes parcio annigonol
- Nid oes gwahaniad ar gyfer cerbydau sy'n parcio ar y safle
- Nid oes dim cyfleusterau gollwng ar gyfer rhieni/gofalwyr
- Nid oes man chwarae diogel ar wahân ar gyfer disgyblion meithrin
- Nid oes man chwarae dan do,
- Nid oes man chwarae meddal
- Nid oes unrhyw ystafell benodol ar wahân ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol

- Nid oes unrhyw ystafell gyfarfod bwrpasol ar wahân
- Nid oes dim cyfleusterau ar wahân i staff neu ddisgyblion i newid
- Nid oes dim cyfleuster newid ar gyfer staff arlwyo
- Nid oes dim teledu cylch caeedig ar y safle
- Ceir nifer o ddiffygion sy'n ymwneud ag anabledd a synhwyraidd
- Mae safle'r ysgol ar dro sydyn sy'n anniogel i gerbydau gael mynediad ac ymadael
- Nid yw safle'r ysgol yn ddigon mawr ac mae angen ailfodelu neu estyniadau i fodloni'r safonau gofynnol (heb effeithio'n andwyol ar faint yr ardal chwarae caled a darpariaeth chwarae awyr agored ac addysg gorfforol)

Ers yr Arolwg Addasrwydd diwethaf, mae'r materion addasrwydd canlynol wedi cael sylw:-

- Y brif swyddfa a swyddfa'r pennaeth angen mynediad dan glo i'r adeilad
- Dim cyfleuster ymarferol gwlyb yn y dosbarthiadau, neu lawr addas
- Cyfleusterau reprograffeg wedi'u lleoli yn y llyfrgell
- Awyru mewn 2 ardal yn ymddangos yn ddiffygiol
- Nid oes man chwarae diogel ar wahân ar gyfer disgyblion meithrin
- Nid oes man chwarae dan do
- Nid oes man chwarae meddal
- Ceir nifer o ddiffygion sy'n ymwneud ag anabledd a synhwyraidd

9.9 Materion Addasrwydd Ysgol Parc y Llan, Treuddyn

Cwblhawyd arolwg addasrwydd Ysgol Parc y Llan, Treuddyn ar 18 Chwefror 2008 ar ran Cyngor Sir y Fflint ac adolygwyd ar 18 Ionawr 2010 gan EC Harris, Ymgynghoriaeth Asedau Adeiledig.

- Dim ystafell anghenion addysgol arbennig un pwrpas,
- Dim ystafell feddygol benodol
- Dim ystafell Cynllunio, Paratoi ac Asesu un pwrpas
- Nid yw'r ystafell staff yn bodloni'r safonau gofynnol
- Dim ardal aros yn y dderbynfa
- Dim ystafell gyfarfod benodol – ystafell gyfarfod yn cael ei rhannu gydag Ysgol Terrig
- Dim digon o ardaloedd chwarae meddal a dan do a storfa addysg gorfforol allanol
- Diffyg lleoedd arbenigol
- Neuadd yn cael ei rhannu gydag Ysgol Terrig

- Problemau draenio sy'n atal defnydd llawn o'r caeau chwarae a darparu mynediad addas i ardal natur/cynefin yr ysgol

Ers yr Arolwg Addasrwydd diwethaf, mae'r materion addasrwydd canlynol wedi cael sylw:-

- Dim ystafell anghenion addysgol arbennig un pwrpas
- Dim ystafell ymroddedig ar gyfer Cynllunio, Paratoi ac Asesu
- Dim ardal aros yn y dderbynfa
- Ardal chwarae dan do annigonol
- Storfa Addysg Gorfforol Allanol
- Diffyg gofod arbenigol
- Problemau draenio sy'n atal defnydd llawn o'r caeau chwarae a darparu mynediad addas i ardal natur/cynefin yr ysgol

9.10 Materion Addasrwydd Ysgol Gynradd Abermorddu

Cwblhawyd arolwg addasrwydd Ysgol Gynradd Abermorddu ar 11 Ionawr 2008 2008 ar ran Cyngor Sir y Fflint, diweddarwyd ar 24 Medi 2009 gan Gyngor Sir y Fflint, a diweddarwyd gan EC Harris, Ymgynghoriaeth Asedau Adeiledig ar 17 Rhagfyr 2009.

- Un ystafell ddosbarth yn cael ei pheryglu oherwydd ei lleoliad a chysylltiadau i'r gofod cylchrediad
- Mae'r pennaeth a'r ysgrifenyddes yn rhannu swyddfa
- Mae'r coridor plant iau yn cael ei ddefnyddio fel ystafell gotiau hefyd gan leihau'r gofod cylchrediad
- Dim ardal aros yn y dderbynfa
- Arwynebedd y neuadd yn llai na'r gofyniad safonol lleiaf
- Nid yw'r ystafell gyfarfod yn ddiogel
- Diffyg lle storio yn y neuadd
- Dim ystafell feddygol un pwrpas
- Dim ystafell anghenion addysgol arbennig un pwrpas
- Dim ystafell newid ar gyfer disgyblion
- Dim ystafelloedd newid ar gyfer staff
- Angen rampiau y tu allan i 3 ystafell
- Nid oes maes parcio ar wahân rhwng y maes parcio a llwybrau at y brif fynedfa
- Maes parcio yn rhy fach i ddarparu ar gyfer pob cerbyd yn y bae parcio
- Dim man gollwng penodedig

Ers yr Arolwg Addasrwydd diwethaf, mae'r materion addasrwydd canlynol wedi wedi cael sylw:-

- Un ystafell ddosbarth yn cael ei pheryglu oherwydd ei lleoliad a chysylltiadau i'r gofod cylchrediad

- Dim ardal aros yn y dderbynfa
- Nid yw'r ystafell gyfarfod yn ddiogel
- Dim ystafell anghenion addysgol arbennig un pwrpas
- Nid oes maes parcio ar wahân rhwng y maes parcio a llwybrau at y brif fynedfa
- Maes parcio yn rhy fach i ddarparu ar gyfer pob cerbyd yn y bae parcio

9.11 Materion Addasrwydd Ysgol Estyn, Yr Hob

Cwblhawyd arolwg addasrwydd Ysgol Estyn, Yr Hob ar 15 Ionawr 2008 gan Gyngor Sir y Fflint a ddiweddarwyd ar 17 Rhagfyr 2009 gan EC Harris, Ymgynghoriaeth Asedau Adeiledig.

- Mynedfa'r ysgol yn uniongyrchol ar faes parcio'r ysgol
- Ardal natur yn bell o'r ysgol a dim llwybr
- Materion awyru a goleuo mewn rhai ystafelloedd dosbarth
- Rhai ystafelloedd dosbarth yn disgyn yn is na'r safonau gofynnol
- 2 ddosbarth heb unrhyw ardaloedd ymarferol gwlyb
- Nid yw ardal y dderbynfa yn ddiogel
- Swyddfa'r ysgrifenyddes yn bell o fynedfa'r ysgol
- Dim ystafell feddygol benodedig
- Dim ystafell gyfarfod benodedig
- Dim ystafell CPA benodedig
- Dim stiwdio
- Diffyg storfa offer addysg gorfforol/cadeiriau a byrddau
- Ardal fwyta yn rhy fach
- Ystafell staff angen storfa sefydlog diogel
- Angen darparu ystafell feddygol
- Dim ystafell newid ar gyfer disgyblion
- Dim ystafell newid ar gyfer athrawon
- Ardal chwarae caled annigonol

Ers yr Arolwg Addasrwydd diwethaf, mae'r materion addasrwydd canlynol wedi cael sylw:-

- Mynedfa'r ysgol yn uniongyrchol ar faes parcio'r ysgol
- Materion awyru a goleuo mewn rhai ystafelloedd dosbarth
- 2 ddosbarth heb unrhyw ardaloedd ymarferol gwlyb
- Nid yw ardal y dderbynfa yn ddiogel – mae gwaith ar y gweill ar gyfer mis Chwefror 2016

9.12 Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam

Dim gwybodaeth addasrwydd manwl wedi ei darparu

Ôl-wybodaeth Cynnal a Chadw

9.13 Mae codau blaenoriaeth ar gyfer ôl-groniad o ran cynnal a chadw [diffiniad] fel a ganlyn:-

Blaenoriaeth 1: Gwaith brys yn ofynnol o fewn blwyddyn
Blaenoriaeth 2: Gwaith hanfodol yn ofynnol o fewn 2 flynedd
Blaenoriaeth 3: Gwaith dymunol [tybiedig] yn ofynnol o fewn 3 i 5 mlynedd
Blaenoriaeth 4: Gwaith tymor hir [tybiedig] yn ofynnol y tu allan i'r cyfnod [cylch] 5 mlynedd

Mae'r elfen Cyfanswm 1 - 3 yn diffinio buddsoddiad ariannol pum mlynedd ac mae elfen 4 yn diffinio buddsoddiad ariannol chwech – ddeng mlynedd.

9.14 Ysgol Llanfynydd (dyddiad yr arolwg 2 Gorffennaf 2013)

Elfen	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 1 (£)	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 2 (£)	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 3 (£)	Blaenoriaeth 4 (£)	CYFANSWM
01 Toeau	0	81,000	0	0	**81,000**
02 Lloriau a grisiau	0	880	0	0	**880**
03 Nenfydau	0	1,232	0	0	**1,232**
04 waliau allanol, ffenestri a drysau	0	663	0	0	**663**
05 waliau mewnol a drysau	0	524	0	0	**524**
08 Gwasanaethau trydanol	0	3,704	0	0	**3,704**
09 Ailaddurno		3,359	11,023	0	**14,382**
10 Dodrefn sefydlog a ffitiadau	0	550	0	0	**550**
Cyfanswm	**0**	**91,912**	**11,023**	**0**	**102,935**

9.15 Ysgol Parc y Llan, Treuddyn (dyddiad yr arolwg 1 Gorffennaf 2014)

Elfen	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 1 (£)	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 2 (£)	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 3 (£)	Blaenoriaeth 4 (£)	CYFANSWM
01 Toeau	0	0	0	0	**0**
03 Nenfydau	0	61	611	0	**672**
07 Gwasanaethau mecanyddol	0	55,045	0	0	**55,045**
08 Gwasanaethau trydanol	0	2,200	5,317	0	**7,517**
09 Ailaddurno	0	0	12,647	0	**12,647**
Cyfanswm	**0**	**73,806**	**79,734**	**0**	**5,928**

9.16 Ysgol Gynradd Abermorddu (dyddiad yr arolwg 9 Ebrill 2013)

Elfen	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 1 (£)	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 2 (£)	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 3 (£)	Blaenoriaeth 4 (£)	CYFANSWM
01 Toeau	0	231	737	0	968
02 Lloriau a grisiau	0	330	34,902	0	35,232
03 Nenfydau	0	231	244	0	475
04 waliau allanol, ffenestri a drysau	0	3,484	501	0	3,984
05 waliau mewnol a drysau	0	796	0	0	796

07 Gwasanaethau mecanyddol	0	0	23,965	0	23,965
08 Gwasanaethau trydanol	0	2,585	1,078	0	3,663
09 Ailaddurno	0	3,894	30,283	0	34,178
10 Offer a Dodrefn Sefydlog	0	330	0	0	330
11 Ardaloedd Allanol	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**0**	**11,881**	**91,710**	**0**	**103,591**

9.17 Ysgol Estyn, Yr Hob (dyddiad yr arolwg 24 Ebrill 2013)

Elfen	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 1 (£)	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 2 (£)	Amcangyfrifon Cost Blaenoriaeth 3 (£)	Blaenoriaeth 4 (£)	CYFANSWM
01 Toeau	0	0	0	0	**0**
02 Lloriau a grisiau	0	0	6,260	0	**6,260**
03 Nenfydau	0	0	0	0	**0**
04 waliau allanol, ffenestri a drysau	0	0	0	0	**0**
05 waliau mewnol a drysau	0	0	0	0	**0**
06 Gwasanaethau iechydol	0	0	0	0	**0**
07 Gwasanaethau	0	0	0	0	**0**

mecanyddol					
08 Gwasanaethau trydanol	0	0	19,140	0	**19,140**
09 Ailaddurno	0	406	17,991	0	**18,387**
11 Ardaloedd Allanol	0	0	0	0	**0**
Cyfanswm	**0**	**406**	**43,391**	**0**	**43,797**

9.18 Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam

Wedi darparu cyfanswm costau sy'n ddyledus £146,000

Dim gwybodaeth fanwl wedi ei darparu

Adnoddau sy'n lleihau

9.19 Mae'r ganran o leoedd gwag mewn ysgolion yn Sir y Fflint yn 17% sy'n dal yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 10%.

9.20 Mae nifer ormodol o leoedd gwag yn clymu adnoddau'n anghynhyrchiol. Gan fod cyllid ysgolion a darpariaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan nifer y disgyblion, mae capasiti gwag yn golygu bod swm anghymesur o gyllid yn cael ei wario ar isadeiledd (megis adeiladau) a "chostau sefydlog" rhedeg ysgol (megis arweinyddiaeth a gweinyddu).

9.21 Gallai'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio'n well i sicrhau bod y cymarebau disgybl-athro yn manteisio i'r eithaf i wneud gwahaniaeth uniongyrchol i ddysgwyr. Wrth i gyllid gwasanaeth cyhoeddus leihau dros y blynyddoedd sydd i ddod mae'r achos dros ail-flaenoriaethu a newid yn dod yn fwy grymus fyth.

9.22 Mae pob ysgol amgen yn yr ardal leol yn darparu amgylcheddau adeiladu priodol i gefnogi dysgu. Felly, barn y Cyngor yw os bydd y cynnig yn cael ei weithredu na fyddai unrhyw effaith andwyol ar unrhyw ddarpariaeth amgen o ran digonolrwydd adeilad. Mae digon o gapasiti o fewn y rhwydwaith ysgol leol i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n symud o Ysgol Llanfynydd.

10. Beth fydd effaith y cynnig ar gyllido ysgolion?

10.1 Gall trefniadaeth ysgol aneffeithlon arwain at batrymau cyllid anwastad ac annheg lle mae rhai ysgolion yn derbyn cyfran anghymesur o'r cyllid ar draul disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill yn yr ardal, mae hyn yn bennaf yn achos ysgolion sydd wedi'u dosbarthu fel ysgolion bach. Dylai unrhyw gynigion ysgolion gyfrannu at sefydlu patrwm mwy cyfiawn o ariannu ysgolion.

10.2 Yn unol â gofynion rheoleiddiol, mae gan Gyngor Sir y Fflint fformiwla ariannu ysgolion sydd yn fethodoleg a ddefnyddir i benderfynu ar y gyfran o'r gyllideb ar gyfer pob ysgol yn y sir. Adolygir y fformiwla bob blwyddyn ac mewn ymgynghoriad â budd-ddeiliaid perthnasol, gwneir gwelliannau i adlewyrchu newidiadau mewn polisi a chyllido. (Mae'r fethodoleg fanwl a'r cyfrannau cyllideb yn cael eu hanfon i bob ysgol a chyhoeddir crynodeb yn yr hyn y cyfeirir ato fel datganiad cyllideb adran 52).

10.3 Mae ysgolion yn cael cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol o fis Ebrill i fis Mawrth, ac mae hyn yn seiliedig ar y disgyblion ym mhob ysgol yn y mis Medi cyn y flwyddyn ariannol. Defnyddiwyd datganiad cyllideb adran 52 2015/16 fel y sail ar gyfer dadansoddi ariannol yn y ddogfen hon.

10.4 Yn 2015/16 derbyniodd Ysgol Llanfynydd ddyraniad ariannu o £217,715, sy'n cynrychioli £4,838 fesul disgybl, gan raddio'r ysgol fel yr un sy'n derbyn y mwyaf o gyllid fesul disgybl yn Sir y Fflint, £1,569 yn uwch na'r cyllid ar gyfartaledd fesul disgybl yn Sir y Fflint. Mae'r lefel uwch o gyllid fesul disgybl yn adlewyrchu'r angen i sybsideiddio ysgolion bach gan gynnwys symiau cyfandaliad o fewn y fformiwlâu ariannu, ac mae hefyd yn adlewyrchu'r gost premiwm uwch fesul disgybl mewn ysgolion llai.

10.5 Mae'r tabl isod yn cynnwys y cyllid fesul disgybl ar gyfer pob un o'r ysgolion yr effeithir arnynt gan y cynnig.

Ysgol	Cyllid fesul disgybl 2015/16	Dyraniad Cyllideb 15/16 (£)
Ysgol Llanfynydd	£4,838	£217,715
Ysgol Parc y Llan, Treuddyn	£3,739	£342,137
Ysgol Gynradd Abermorddu	£3,134	£651,823
Ysgol Estyn, Yr Hob	£3,233	£695,077
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn	£3,369	£346,418

* Sylwer bydd y fformiwlâu ariannu ar gyfer Ysgol Gynradd Bwlchgwyn ac Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn seiliedig ar fethodoleg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

10.6 Ceir pwysau cost sylweddol sy'n wynebu ysgolion megis cynnydd yng nghyfraniad pensiwn y cyflogwyr, cyflwyniad y pensiwn haen sengl sy'n arwain at gyfraniadau yswiriant gwladol uwch y cyflogwr, dyfarniadau cyflog a chwyddiant cyffredinol. Oherwydd mesurau cynilo mae cyllidebau ysgolion o dan bwysau cynyddol, bydd cynnydd o 1% yng nghyllideb yr ysgolion yn 2016/17, sydd, mewn termau real, yn golygu y bydd ysgolion yn gorfod gwneud arbedion effeithlonrwydd o tua 2% i amsugno pwysau costau.

10.7 Gan ddefnyddio model cyllido 2015/16 ac yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion ym Medi 2015 ac amcangyfrif o nifer y disgyblion ar gyfer Medi 2016 byddai Ysgol Llanfynydd yn derbyn y dyraniad fformiwla canlynol:

Blwyddyn Ariannol	Niferoedd disgyblion	Amcangyfrif Dyraniad fformiwla *	Cyllid fesul disgybl	Gostyngiad yn y gyllideb o'i gymharu â 2015/16	2% pwysau chwyddiant	Gostyngiad termau real yn y gyllideb
2016/17	37	£198,429	£5,362	-£19,286	-3,969	-23,254
2017/18	34	£188,838	£5,637	-£28,877	-3,777	-32,654

* Yn seiliedig ar Fodel Ariannu 2015/16 - yn cynnwys meithrinfa rhan amser.

10.8 Gyda llai o arian oherwydd bod niferoedd y disgyblion yn gostwng, gostyngiad mewn cyllidebau termau real oherwydd pwysau chwyddiant mae gwydnwch ariannol yr ysgol yn destun pryder sylweddol.

10.9 Os bydd Ysgol Llanfynydd yn cau, byddai cyllid dan arweiniad disgyblion yn dilyn disgyblion i'r ysgol o'u dewis. Gan na ellir rhagweld dewis rhieni ar hyn o bryd, ar gyfer diben modelu, tybir y byddai 54% o'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Parc y Llan, Treuddyn a 46% i ysgol yn Wrecsam. Mae'r effaith ar y dyraniad fformiwla ar Parc y Llan, Treuddyn wedi'i ddangos yn y tabl isod.

Ysgol	Cyllid fesul disgybl 2015/16	Dyraniad Cyllideb (£)	Cynnydd mewn cyllid
Ysgol Parc y Llan, Treuddyn	£3,618	£417,849	£75,712

10.10 Oherwydd argaeledd lleoedd ysgol amgen yn yr ardal, ni fyddai unrhyw ofynion ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion eraill o ganlyniad i'r cynnig.

10.11 Arbedion eraill y gellid eu cyflawni hefyd yw gostyngiad yn ôl-groniad cynnal a chadw'r Cyngor sef £102,935 a gostyngiad mewn costau gwasanaethu cynnal a chadw cylchol ar gyfer profion clefyd y lleng filwyr, nwy a thrydan.

10.12 Nid oes unrhyw gostau trafnidiaeth presennol i Ysgol Llanfynydd. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, byddai gan 17 o ddisgyblion hawl i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol agosaf Ysgol Parc y Llan, Treuddyn am ddim ar y sail bod y milltiroedd i'r ysgol yn fwy na 2 filltir ac ystyrir bod y llwybr yn beryglus. Byddai amcangyfrif cost blynyddol cludiant o'r cartref i'r ysgol oddeutu £16,150.

10.13 Mae prydau ysgol i Ysgol Llanfynydd yn cael eu darparu ar sail eu cludo o Ysgol Gynradd Abermorddu. Mae hyn yn golygu bod y bwyd yn cael ei baratoi gan Ysgol Gynradd Abermorddu ac yna'n cael ei gludo draw i'r ysgol yn barod ar gyfer amser cinio. Mae'r arbedion blynyddol amcangyfrifedig pe bai'r ysgol yn cau tua £5,000.

10.14 Mae'r arbediad net y gellir ei gyflawni os bydd y cynnig i gau Ysgol Llanfynydd yn mynd rhagddo fel a ganlyn:

Arbediad/Costau	Swm
Fformiwla Arbed Arian	£94,542

Arbediad Gwaith Cynnal a Chadw sydd ar ôl	£102,935
Costau Cludiant	-£16,150
Costau Arlwyo	£5,000
Cyfanswm Arbediad Net	**£186,327**

10.15 Mae gan Gyngor Sir y Fflint Strategaeth Lleihau Carbon sy'n ceisio lleihau allyriadau Carbon y Sir gan 60% o lefelau 2007/08 erbyn 2021. O fewn y strategaeth hon, mae pedwar maes gweithredu diffiniedig,

- Cadw tŷ da e.e. lleihau'r defnydd gwastraffus/amhriodol o ynni
- Uwchraddio technegol - gosod cyfarpar a rheoliadau newydd mwy ynni effeithlon
- Rhesymoli asedau - cau/cadw adeiladau anaddas neu ormodol
- Cynhyrchu ynni adnewyddadwy - buddsoddi mewn technolegau cynhyrchu carbon isel.

Mae'r holl elfennau uchod yn cyfrannu at y nod bwysig o leihau allyriadau, gan arwain at amgylchedd gwell a chostau is i'r Cyngor, yn enwedig o ran costau ynni a gwahanol drethi carbon.

11. Beth fydd effaith y cynnig ar y tir ac adeiladau'r ysgol?

11.1 Nid oes gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer y safle, ac ni fydd yn ystyried dyfodol y safle hyd nes y penderfynir ar ddyfodol yr ysgol.

11.2 Os caiff y cynnig ei weithredu byddai Ysgol Llanfynydd (adeilad a'r safle) yn cael ei ddatgan dros ben ar gyfer addysg, ac yn cael ei drosglwyddo i'r Tîm Asedau Eiddo, Cyngor Sir y Fflint.

12. Pa faterion sydd wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r cynnig?

Opsiynau Amgen

12.1 Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ofalus i amrywiaeth o opsiynau amgen fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynnig presennol. Wrth ystyried y dewisiadau hyn cyfeiriwyd at brif amcanion buddsoddi'r rhaglen moderneiddio ysgolion sydd fel a ganlyn:

- parhau i godi safonau addysgol;

- creu'r amodau i arweinwyr ysgol lwyddo;

- sicrhau bod adeiladau ysgol yn amgylcheddau dysgu a gweithio deniadol;
- lleihau nifer y lleoedd gwag ac annhegwch o amrywiad yn y gost fesul disgybl; a
- darparu gwydnwch yn erbyn cyllid refeniw sy'n gostwng.

12.2 Yn ogystal, dadansoddwyd yr holl opsiynau yn erbyn yr ysgogwyr allweddol ar gyfer yr adolygiad, sef:

- Gwelliant addysgol
- Arweinyddiaeth Ysgol Gwydn
- Adeiladau Addas
- Lleoedd heb eu llenwi
- Adnoddau sy'n lleihau

12.3 Amlinellir y dewisiadau eraill a ystyriwyd gan y Cyngor o ran Ysgol Llanfynydd isod ochr yn ochr â manteision cysylltiedig ac anfanteision ar gyfer pob opsiwn.

Opsiwn 1: Cadw'r Sefyllfa Bresennol	
Manteision	**Anfanteision**
• Byddai Ysgol Llanfynydd yn aros yn agored	• Byddai'r Cyngor yn methu gwneud cynnydd tuag at y targed cenedlaethol o 10% ar gyfer lleoedd gwag ar draws pob sector ysgol. • Ni fyddai'n lleihau'r gost fesul disgybl ar gyfer yr ysgol, gyda'r ysgol lai hon yn derbyn cymhorthdal gan y Cyngor er mwyn ei chynnal. • Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at ddosbarthiad mwy cytbwys o ariannu a arweinir gan y disgybl. • Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at fwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ystâd yr ysgol.

	• Byddai'r Cyngor yn dal i orfod cefnogi costau gwella cyfalaf a chynnal a chadw adeilad.

Opsiwn 2: Ffederasiwn	
Manteision	**Anfanteision**
• Byddai Ysgol Llanfynydd yn aros ar agor • Byddai yna un pennaeth ysgol ar draws dau safle, yn darparu cyfle i gryfhau arweinyddiaeth a rheoli ac yn arwain at arbediad cyflog pennaeth. • Byddai yna fwy o gyfle i rannu adnoddau na'r 'status quo' a rhannu arferion gorau a byddai arbenigedd staff yn ehangach.	• Byddai lleoedd heb eu llenwi yn parhau'n broblem - awgryma'r rhagolygon disgyblion leoedd heb eu llenwi uwchlaw'r targed cenedlaethol o 10% ar draws darpariaeth cyfrwng Saesneg yn Llanfynydd a'r ardal gyfagos yn 2017. • Byddai'n dal i fod yn ofynnol i ariannu a chynnal dau adeilad ysgol a chyrff staffio (ac eithrio'r Pennaeth) . • Efallai y bydd mwy o gostau staffio oherwydd gofynion staff ychwanegol o ganlyniad i'r strwythurau arweinyddiaeth a rheolaeth diwygiedig. • Byddai disgyblion yn aros mewn carfannau oedran cymysg yn Ysgol Llanfynydd – er y byddai rhai cyfleoedd yn cael eu cyflwyno i ymgymryd â gweithgareddau gyda disgyblion partner ffederal. • Ni fyddai'n arwain at unrhyw arbedion refeniw sylweddol. • Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at ddosbarthu mwy cytbwys o ariannu dan arweiniad disgyblion. • Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at fwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ystâd yr ysgol. • Byddai'r Cyngor yn dal i orfod cefnogi costau gwella cyfalaf a chynnal a chadw adeilad.

Opsiwn 3: Cau	
Manteision	**Anfanteision**
• Byddai'n darparu parhad ar gyfer disgyblion mewn ysgol arall. Byddai disgyblion yn gallu cael mynediad at o leiaf safon gyfatebol o addysg mewn nifer o ysgolion o fewn yr ardal. • Byddai lleoedd gwag yn lleihau yn unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol. • Bydd y gost fesul ystod disgybl yn llai yn y sector cynradd. • Byddai'r gweithgareddau a chostau cynnal a chadw adeiladau cylchol ac wedi eu cynllunio yn gostwng. • Byddai arbedion refeniw yn cael eu gwireddu ar staffio ac arweinyddiaeth. • Byddai arian fesul disgybl yn cael ei ddosbarthu'n fwy gwastad ar draws yr ardal a byddai'r effaith yn fwy eang ar draws ystâd yr ysgol. • Gallai adnoddau gael eu gweithredu yn fwy effeithlon ac effeithiol i gynnal a chryfhau gwelliant addysgol yn yr ysgolion sy'n weddill. • Ni fyddai'n rhaid i'r Cyngor wario adnoddau cyfalaf i fynd i'r afael â materion addasrwydd a digonolrwydd.	• Byddai darpariaeth addysgol gynradd o fewn pentref Llanfynydd yn dod i ben. • Gall staff gael eu hadleoli neu eu gwneud yn ddi-waith • Byddai 17 o ddisgyblion yn gweld cynnydd ymylol mewn amser. • Effeithiau posibl ar grwpiau cyfeillgarwch.

Yn dilyn asesiad o fanteision ac anfanteision yr opsiynau sydd ar gael, mae'r Cyngor yn cynnig cau Ysgol Llanfynydd (ysgol gymunedol Cyfrwng Saesneg,) o 31 Awst 2016 gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i'r rhwydwaith lleol o ysgolion yn seiliedig ar ddewis rhieni.

13. Effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

13.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod lle mae yna gynnig i gau ysgol y bydd yn cael rhywfaint o effaith ar y gymuned. Mae'r asesiad o'r effaith ar y gymuned i'w weld yn y ddolen ganlynol:

www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation

13.2 Mae'r asesiad effaith wedi nodi nifer o feysydd posibl lle gallai'r cynnig gael rhywfaint o effaith negyddol ar nifer fechan o deuluoedd lleol ac ar y gymuned leol.

13.3 Byddai colli'r ysgol yn effeithio ar y nifer fach o weithgareddau cymunedol sy'n digwydd a'r cyfleusterau cymunedol yn Ysgol Llanfynydd megis:-

- Sefydliad y Merched
- Cyfeillion Llanfynydd (cyfarfodydd a digwyddiadau)
- Amser Rhythm (dechrau Medi 2015)
- Clwb Ffilmiau Cymunedol (dechrau Medi 2015)
- Cyngor Cymuned (dechrau Medi 2015)
- Ardal Chwarae

13.4 Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar gyfer safle'r ysgol petai'r ysgol yn cau. Bydd cynllunio ar gyfer safle'r ysgol ond yn digwydd unwaith y bydd dyfodol yr ysgol wedi ei benderfynu.

13.5 Gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu ran o'r adeilad i grŵp cymunedol cyfansoddiadol lle gallant ddangos bod yr angen a'r gallu i gymryd drosodd y gwaith o redeg y safle.

13.6 Mae'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg hefyd wedi cael ei gwblhau ar gyfer y cynnig hwn. Mae'r asesiadau effaith wedi eu cwblhau i ystyried effaith bosibl mewn perthynas â'r holl feysydd cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg a'r ffyrdd posibl y gall yr effaith fod yn gyfyngedig ac y gall effaith gadarnhaol gael ei hyrwyddo.

13.7 Mae'r asesiad effaith wedi nodi nifer o feysydd posibl lle gallai'r cynnig gael rhywfaint o effaith negyddol ar rai grwpiau nodweddion gwarchodedig, ac mae wedi nodi ffyrdd o hyrwyddo effaith gadarnhaol. Mae'r asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg i'w weld yn y ddolen ganlynol:-

www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation

14. Effaith y Cynnig ar Athrawon, Staff Cefnogi a'r Corff Llywodraethu

14.1 Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu bydd hyn yn arwain at newid ar gyfer y corff staffio. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu byddai tîm Partner Busnes

Adnoddau Dynol y Cyngor yn rhoi cyngor ac arweiniad i gorff llywodraethu ac aelodau o'r staff addysgu a staff cefnogi o ran y broses colli swydd a gweithgareddau cysylltiedig.

14.2 Fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol ymgynghorir â'r staff addysgu priodol, staff cefnogi ac undebau llafur. Bydd cynrychiolydd a enwir o dîm Adnoddau Dynol Cyngor Sir y Fflint yn cael ei ddyrannu i gynnal cyfarfodydd ymgynghori.

14.3 Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gydag aelodau presennol o staff yn Ysgol Llanfynydd, gan gynnwys athrawon a staff cefnogi, pe baent yn dymuno ceisio cyfleoedd adleoli neu ymddeoliad.

14.4 Bydd corff llywodraethu'r ysgol yn gweithredu ei bolisi newid sefydliadol a cholli swydd ei hun pan fydd angen a bydd cefnogaeth briodol i athrawon a staff yn cael ei darparu yn ystod y cyfnod hwn drwy Dîm Arweinyddiaeth yr Ysgolion a'r Cyngor.

14.5 Gall staff a ddadleolwyd gan y cynnig gael y cyfle i gael eu cyflogi yn rhwydwaith ysgolion lleol y Cyngor.

14.6 Ni ddisgwylir y bydd unrhyw newidiadau arwyddocaol yn yr ysgolion eraill a enwir yn y ddogfen hon o ganlyniad i'r cynnig.

14.7 Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu byddai corff Llywodraethu Ysgol Llanfynydd yn dod i ben ar y dyddiad cau arfaethedig.

15. Effaith y Cynnig ar Ddisgyblion

15.1 Wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion, cydnabyddir y bydd rhai newidiadau i'r disgyblion. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu ac Ysgol Llanfynydd yn cau byddai'n arwain at newidiadau i'r disgyblion presennol megis:

- Llwybr ychydig yn hirach i'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ardal Llanfynydd
- Llai o amser teithio i'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n byw yn Wrecsam
- Gwisg ysgol newydd
- Athrawon a staff cefnogi newydd
- Amgylchedd dysgu newydd
- Grwpiau cyfeillgarwch yr effeithir arnynt

15.2 Byddai'r Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i hwyluso'r newid ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn fwyaf arbennig ar gyfer grwpiau o ddysgwyr diamddiffyn megis Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu byddai'r Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â disgyblion, eu rhieni a'r ysgolion

perthnasol i wneud trefniadau pontio priodol i'r disgyblion ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd (yn amodol ar ddewis y rhieni).

15.3 Lle mae gan ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol penodol byddai'r adnoddau a'r gefnogaeth maent eu hangen ar gael yn eu hamgylcheddau dysgu newydd. Manylir ar hyn yn adran 16.

16. Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Grwpiau o Ddysgwyr Diamddiffyn

16.1 Os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu, byddai'n arwain at newid yn yr amgylchedd dysgu ar gyfer pob disgybl. Mae'n cael ei gydnabod gan y Cyngor er y bydd y newid yn cael ei brofi gan yr holl ddisgyblion, gall fod yn fwy heriol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau aflonyddwch i bob disgybl gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

16.2 Mae'n ofynnol i bob ysgol yng Nghymru dalu sylw dyledus i ddogfennau Llywodraeth Cymru Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002) a Chynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr Rhif: 47/2006. Mae'r dogfennau hyn yn categoreiddio grwpiau o ddisgyblion a allai gael eu hystyried ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn pennu'r angen i ysgolion gael prosesau ar waith i gefnogi nodi a'i gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud darpariaeth briodol mewn ymateb i hyn. Byddai angen i unrhyw ysgol arall a nodwyd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o ganlyniad i'r cynnig hwn gymryd i ystyriaeth anghenion disgyblion a chynnig cefnogaeth briodol mewn ymateb i'r rhain.

16.3 Os oes gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol sylweddol, a chyhoeddwyd Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, byddant yn parhau i gael mynediad at yr adnoddau ychwanegol a nodwyd o fewn y Datganiad yn yr ysgol newydd. I rai disgyblion bydd yna Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) yn darparu ymyrraeth unigol gan wasanaethau canolog, neu adnoddau ariannol i'r ysgol ddarparu cefnogaeth llawn amser. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd yr adnoddau/darpariaeth hefyd yn trosglwyddo i'r ysgol newydd. Ar gyfer disgyblion sydd â CLG neu Ddatganiad, byddai'r swyddog a enwyd yn cynnig cefnogaeth i rieni/gofalwyr a disgyblion yn ystod y cyfnod pontio.

16.4 Bydd cynllunio gofalus yn digwydd lle mae gan ddisgyblion anghenion sy'n gofyn am addasiadau i'r amgylchedd ffisegol newydd i'w wneud yn hygyrch. Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymwybodol o'r dyletswyddau a osodwyd arno gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n gweithio o fewn cyfyngiadau'r Ddeddf i sicrhau adeiladau ysgol hygyrch ar gyfer ei ddisgyblion. Felly, bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r amgylchedd newydd lle mae angen addasiadau. I rai disgyblion, mae'n bosibl y bydd cyfleusterau addas yn bodoli eisoes a bydd pob disgybl yn cael eu hystyried ar sail unigol, gan gymryd dewis y rhieni i ystyriaeth.

16.5 Mae ysgolion wedi adrodd ar gategorïau o anghenion addysgol i'w disgyblion llawn amser yn y CYBLD Ionawr 2015. Mae'r categorïau anghenion addysgol ar gyfer Ysgol Llanfynydd a'r ysgolion eraill, yn cael eu harddangos isod.

Mewn rhai achosion mae'r set data yn anghyflawn ac yn cael ei arddangos fel (*llai na 10) gan y gallai hyn arwain at nodi disgyblion unigol oherwydd y niferoedd isel o fewn y garfan gysylltiedig.

Enw'r Ysgol	Gweithredu gan yr Ysgol	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Datganiad
Ysgol Llanfynydd	*	*	*
Ysgol Parc y Llan, Treuddyn	13	*	*
Ysgol Gynradd Abermorddu	*	*	*
Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam	*	*	*

16.6 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ADY yn amodol ar wirio allanol gan y broses Arolygu gan Estyn. Mae'r sylwadau canlynol wedi cael eu gwneud mewn perthynas ag Ysgol Llanfynydd, a hefyd pob un o'r ysgolion perthnasol:

Ysgol Llanfynydd Dyddiad Arolygiad Estyn: Tachwedd 2009

'Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer a'r fframwaith ar gyfer addysg gynhwysol. Mae ymyrraeth fuan, gyda ffocws da yn arfer ysgol sy'n gwasanaethu dysgwyr yn dda. Mae staff yn trefnu strategaethau addysgu priodol a thrwy gynlluniau addysg unigol, mae gwaith yn cael ei addasu'n glir i fodloni anghenion unigol. Maent yn sicrhau bod dysgwyr ag AAA yn cael eu hintegreiddio'n llawn i fywyd yr ysgol.'

'Mae dysgwyr ag AAA yn cael eu cefnogi'n dda o fewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae'r rhai sy'n tangyflawni mewn llythrennedd a rhifedd yn elwa'n fawr o ymyrraeth wedi'i thargedu. Mae arbenigedd y cymhorthwyr addysgu yn y maes hwn yn un o gryfderau'r ysgol. Mae dysgwyr mwy galluog yn cael eu hadnabod ac yn cael lefel briodol o her.'

Ysgol Parc y Llan, Treuddyn Dyddiad Arolygiad Estyn: Ebrill 2015

'Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer cwrdd ag anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu bodloni'n llawn. Mae staff yn gweithio'n effeithiol i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i ddisgyblion ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd disgyblion unigol.'

Ysgol Gynradd Abermorddu Dyddiad Arolygiad Estyn: Mai 2013

'Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae athrawon yn nodi anawsterau dysgu disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth effeithiol ac amserol. Mae staff cefnogi yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn tuag at ddysgu'r disgyblion hyn. Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Maent hefyd yn sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan mewn gosod ac adolygu eu targedau unigol. Mae athrawon yn hysbysu rhieni am gynnydd eu plentyn.'

'Mae'r holl rieni neu ofalwyr a ymatebodd yn cytuno bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae pawb a ymatebodd yn hyderus bod eu plentyn yn cael digon o gefnogaeth ychwanegol ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol.'

Ysgol Estyn, Yr Hob Dyddiad Arolygiad Estyn: Medi 2010

'Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cefnogaeth dda. Mae grwpiau o ddisgyblion yn derbyn cefnogaeth ychwanegol â ffocws da i ddatblygu eu sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd. Mae gan bob disgybl ag AAA gynlluniau addysg unigol. Nid yw targedau achlysurol o fewn y cynlluniau hyn yn ddigon heriol ac mae ganddynt fylchau hir rhwng eu gweithredu a'u monitro. Mae gan nifer fechan o blant gynlluniau ymddygiad unigol sy'n llwyddiannus trwy ddefnyddio system o gydnabyddiaeth gadarnhaol a gwobrau.'

Ysgol Gynradd Bwlchgwyn Dyddiad Arolygiad Estyn: Hydref 2013

Ni wnaed sylwadau penodol gan Estyn.

16.7 Yn CYBLD mis Ionawr 2015 roedd canran Prydau Ysgol am Ddim ar gyfer Ysgol Llanfynydd yn 11.9%, mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.1%. Mae'r Cyngor o'r farn na fydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd.

17. Trefniadau Cludiant

17.1 Nid oes unrhyw drefniadau cludiant presennol yn eu lle ar gyfer disgyblion yn Ysgol Llanfynydd.

17.2 Bydd y Cyngor yn darparu trafnidiaeth yn unol â'i Bolisi Cludiant.

http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf

17.3 I grynhoi, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i blant oedran ysgol gorfodol, lle mae plentyn sy'n derbyn addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol briodol agosaf.

Mae'r Cyngor hefyd yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oed ysgol statudol:-

- lle mae'r ffordd i'r ysgol yn cael ei hystyried yn beryglus gan yr Awdurdod Lleol;
- lle mae cludiant i ysgol a enwir yn cael ei nodi yn Natganiad Anghenion Addysgol Arbennig disgybl. Byddai hyn fel rheol am resymau meddygol neu addysgol a byddai'n cael ei ystyried yn hanfodol yng nghyd-destun meini prawf arall a nodwyd yn y polisi hwn
- pan fo plentyn angen cludiant am resymau meddygol ac nad oes cludiant cyhoeddus addas ar gael;

Mae cludiant am ddim hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol:

- pan fo plentyn y mae ei rieni yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith yn byw mwy na 2.5 milltir o'r ysgol briodol agosaf;
- i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf o dan y meini prawf a nodwyd uchod;
- i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf lle mae'r mynediad i'r ysgol ar sail enwadol, yn amodol ar y meini prawf pellter. Bydd ymgynghori gydag ysgolion unigol yn cael ei gynnal i gadarnhau'r meini prawf derbyn ar gyfer derbyn disgyblion. Gellir gofyn am dystiolaeth addas o ymlyniad wrth ffydd yr ysgol megis tystysgrif bedydd neu lythyr gan offeiriad.

17.4 Byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Llanfynydd yn gweld mwy o bellter o'u cyfeiriad cartref i'r ysgol amgen, ac ni fyddai'n gallu defnyddio llwybrau cerdded o fewn y pentref, oherwydd ei leoliad gwledig. Fodd bynnag, ni fyddai'r cynnydd mewn amser teithio yn fwy na'r canllawiau teithio i ddysgwyr.

17.5 Gellir gweld gwybodaeth mapio a chludiant manwl ar gyfer disgyblion Ysgol Llanfynydd ac ysgolion eraill yn yr asesiad o effaith ar gludiant gan ddilyn y ddolen ganlynol:-

www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation

18. Trefniadau Derbyn

18.1 Os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu, bydd trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion eraill yn cael eu trin yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion Cyngor Sir y Fflint. Gellir gweld y polisi hwn ar y wefan drwy'r ddolen ganlynol:-

http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Admissions.aspx

Cyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Llanfynydd, Ysgol Parc y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu ac Ysgol Estyn, Yr Hob. Cyngor Sir Wrecsam yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, byddai rhieni/gofalwyr sy'n dymuno gwneud cais i ysgol yn Sir y Fflint angen gwneud cais am le mewn ysgol arall. Gall rhieni/gofalwyr lenwi cais ar bapur neu ar lein sydd ar gael gan yr adran derbyniadau ysgolion neu o unrhyw un o'n hysgolion.

18.2 Bydd tîm derbyniadau Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cysylltu â rhieni/gofalwyr os bydd y cynnig yn cael ei weithredu i gefnogi pontio sefydlog ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgol arall. Byddai'r gwasanaeth derbyn yn ysgrifennu at rieni unigol i amlinellu'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a chynorthwyo rhieni/gofalwyr i nodi darpariaeth addas arall gan gymryd i ystyriaeth anghenion disgyblion unigol.

18.3 Gall rhieni/gofalwyr lenwi ffurflen ar-lein ar gyfer derbyniadau i ysgolion yn Sir y Fflint o adran derbyniadau i ysgolion Sir y Fflint yn y ddolen ganlynol:-

http://www.flintshire.gov.uk/schooladmissions

Gall rhieni/gofalwyr lenwi ffurflen ar-lein ar gyfer derbyniadau i ysgolion yn Wrecsam o adran derbyniadau i ysgolion Wrecsam yn y ddolen ganlynol:-

https://admissions.wrexham.gov.uk/

19. Effaith y Cynnig ar Ddarpariaeth Ysgol Uwchradd

19.1 Ni fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth ysgol uwchradd yn yr ardal. Mae disgyblion Ysgol Llanfynydd yn hanesyddol yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Castell Alun. Os bydd disgyblion Ysgol Llanfynydd yn dewis eu hysgol gynradd agosaf nesaf ni fyddai hyn yn cael effaith negyddol ar Ysgol Uwchradd Castell Alun. % Presenoldeb yn ystod y flwyddyn.

Blwyddyn: 2014
Disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2
Blwyddyn:2014

20. Sut fydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal

20.1 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal rhwng dydd Mercher, 21 Hydref 2015 a dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2015. Mae'n ofynnol i'r ymgynghoriad hwn gael ei gynnal am o leiaf 42 diwrnod gydag o leiaf 20 o'r diwrnodau hyn yn ddiwrnodau ysgol.

20.2 Fel rhan o'r ymgynghoriad, mae Cyngor Sir y Fflint wedi cynhyrchu'r ddogfen ymgynghori hon sy'n cynnwys gwybodaeth benodol a nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen ymgynghori yn dilyn y canllawiau hynny ac yn nodi'r wybodaeth y bydd pobl ei hangen i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Copïau caled ar gael ar gais drwy gysylltu â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704134 neu 01352 704015 neu e-bostio 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

20.3 Mae'r ddogfen ymgynghori ffurfiol hon wedi cael ei hanfon at amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys:

- Corff Llywodraethu Ysgol Llanfynydd
- Disgyblion, Cyngor Ysgol, Rhieni, gofalwyr, gwarchodwyr, staff cefnogi ac athrawon Ysgol Llanfynydd
- Cyrff Llywodraethu eraill, staff, rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid a chynghorau Ysgol mewn ysgolion cynradd cyfagos
- Grŵp Chwarae Pentrefwyr Bach (darpar rieni)
- Aelodau Seneddol
- Aelodau'r Cynulliad
- Estyn
- Cyngor Cymuned LeeswoodYsgol Uwchradd Castell AlunUndebau llafur athrawon a staff
- Gwasanaeth Effeithiolrwydd Ysgolion (GwE)
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Cymuned Llanfynydd
- Cyngor Cymuned Treuddyn
- Cyngor Cymuned yr Hob
- Cyngor Cymuned Leeswood
- Ysgol Uwchradd Castell Alun
- Aelodau Cynulliad ar gyfer Cyngor Sir y Fflint ac Aelodau Cynulliad rhanbarthol ar gyfer yr ardal
- Swyddog Cludiant Sir y Fflint a Swyddogion Cludiant Awdurdod Lleol cyfagos
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf lleol
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Urdd
- Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig
- Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint a Phartneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Cynghorwyr Sir y Fflint sy'n cynrychioli Llanfynydd a'r cyffiniau.

- Cynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n cynrychioli ardal Brymbo a Bwlchgwyn

20.4 Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint a gellir ei gweld trwy ddilyn y ddolen hon:-

www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation

20.5 Mae fersiwn atodol o'r ddogfen ymgynghori hon wedi'i chynhyrchu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig. Bydd y ddogfen hon ar gael yn yr ysgolion a enwir o fewn y cynnig hwn. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint hefyd trwy ddefnyddio'r ddolen a ddarperir uchod. Mae'r ddogfen plant a phobl ifanc wedi cael ei hysgrifennu a'i chyflwyno'n benodol i alluogi plant a phobl ifanc i ddeall ac ymgysylltu â'r broses ymgynghori. Copïau caled ar gael ar gais drwy gysylltu â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704134 neu 01352 704015 neu e-bostio 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

20.6 Mae dogfennau ategol perthnasol eraill, megis yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, Cludiant a'r Iaith Gymraeg hefyd ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint gan ddefnyddio'r ddolen a ddarperir uchod.

20.7 O fewn 13 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, mae'n rhaid i adroddiad ymgynghori ffurfiol gael ei gyhoeddi. Mae'n rhaid i'r adroddiad ymgynghori ffurfiol gynnwys y canlynol:

Crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion;

- Ymateb i bob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion drwy gyfrwng eglurhad ynghyd â rhesymau ategol;
- Barn Estyn yn llawn (gan ei fod yn cael ei ddarparu yn ei ymateb i'r ymgynghoriad) o rinweddau cyffredinol y cynnig; a
- Rhaid i unrhyw gynigydd sicrhau bod unrhyw farn a fynegir gan blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan y cynigion yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad ymgynghori a'i fod yn hygyrch iddynt.

20.8 Nid yw ymatebion a ddarparwyd yn y cyfnod ymgynghori yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau ffurfiol.

20.9 Bydd yr adroddiad ymgynghori ffurfiol yn cael ei ystyried gan y Cabinet a fydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig. Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen, yna mae'n rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf Rhybudd Statudol.

20.10 Mae'r cyfnod gwrthwynebu statudol yn para am 28 diwrnod (mae rhaid i 15 diwrnod fod yn ddiwrnodau ysgol). I gael eich ystyried fel gwrthwynebiad statudol, mae'n rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost a anfonir at y cynigydd (Cyngor Sir y Fflint).

20.11 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol, mae'n rhaid i grynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau gael eu cyhoeddi. Mae'n rhaid i'r Adroddiad Gwrthwynebiad gael ei gyhoeddi cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y penderfyniad ar y cynnig.

21.12 Noder na fydd ymatebion a gyflwynir fel rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiad i'r cynnig. Gall gwrthwynebiadau statudol ond cael eu gwneud os bydd Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi. Os bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi yna gellir cofrestru gwrthwynebiadau. Gall ymgyngoreion gyflwyno cais yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y dylid trin eu gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod ymgynghori fel gwrthwynebiad.

20.13 Mae gan Gyngor Sir y Fflint 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu i benderfynu p'un ai i weithredu'r cynnig. Gelwir hyn yn 'penderfynu ar y cynnig'.

20.14 Bydd Cyngor Sir y Fflint yn gwneud ac yn cyhoeddi ei benderfyniad mewn perthynas â'r cynnig yn ysgrifenedig gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint.

20.15 O dan adran 54 o Ddeddf 2013 gall y cyrff canlynol o fewn 28 diwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried;

- Cyngor arall yr effeithir arno gan y cynnig;
- Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
- Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n ddarostyngedig i'r cynigion;
- Ymddiriedolaeth dal eiddo ar ran yr ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n ddarostyngedig i'r cynigion;
- Sefydliad addysg bellach yr effeithir arno gan y cynigion

20.16 Bydd angen i'r cyrff sy'n gwneud yr atyfeiriad nodi pam eu bod yn credu bod y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor yn anghywir.

20.17 Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch gyflwyno eich barn i ni neu ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch y cynnig. Mae manylion yn cael eu cynnwys isod ar sut y gallwch gyflwyno ymatebion mewn nifer o ffyrdd:

Drwy'r Post

Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND

Trwy e-bost

21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Ar lein

https://www.surveymonkey.com/r/WFS68F2

20.18 Mae ffurflen ymateb hefyd ynghlwm ar ffurf copi caled ar ddiwedd y ddogfen hon. Gellir ei dychwelyd naill ai drwy'r post neu e-bost i'r cyfeiriadau uchod. Yn ogystal, gallwch gwblhau'r ffurflen ymateb yn electronig drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

https://www.surveymonkey.com/r/WFS68F2

20.19 Cynhelir digwyddiad ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc gydag aelodau o Gyngor Ysgol Llanfynydd. Bydd hyn yn cael ei hwyluso gan swyddogion o Gyngor Sir y Fflint a bydd eu rolau yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gan blant a phobl ifanc hefyd y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori. Bydd yr ysgolion hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig yn cael y wybodaeth ymgynghori trwy eu Cyngor Ysgol.

20.20 Cynhelir digwyddiad ymgynghori i rieni/gofalwyr Ysgol Llanfynydd. Swyddogion o Gyngor Sir y Fflint fydd yn gyfrifol am hyn. Bydd rhieni / gofalwyr yn cael y cyfle i drafod y cynnig gyda Swyddogion.

20.21 Bydd digwyddiad ymgynghori yn cael ei gynnig ar gyfer Athrawon/Staff Cefnogi a Chorff Llywodraethu Ysgol Llanfynydd. Swyddogion o Gyngor Sir y Fflint fydd yn gyfrifol am hyn. Bydd Athrawon/Staff Cefnogi a Chorff Llywodraethu Ysgol Llanfynydd yn cael y cyfle i drafod y cynnig gyda Swyddogion.

20.22 Ar ddiwedd y broses ymgynghori ffurfiol bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu casglu a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori ffurfiol ochr yn ochr ag ymatebion ac eglurhad o faterion gan y Cyngor. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried.

20.23 Mae'r holl sylwadau'n cael eu cyflwyno i'r cyfeiriadau uchod erbyn dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2015. Mae'n bosibl na fydd ymatebion/safbwyntiau/sylwadau ar y cynnig a anfonir at drydydd partïon yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad er y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gasglu'r safbwyntiau hyn. Efallai na fydd unrhyw sylwadau hwyr yn cael eu cynnwys o fewn dadansoddiad a gyflwynir fel rhan o'r adroddiad ymgynghori ffurfiol.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

(Sylwer na fydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyfrif fel gwrthwynebiad ffurfiol)

Bydd yr ymgynghoriad ar gyfer Ysgol Llanfynydd yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2013) yn dechrau dydd Mercher, 21 Hydref 2015 ac yn dod i ben dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2015.

Cynnig i gau Ysgol Llanfynydd, (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg) o 31 Awst 2016 gyda disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal leol yn amodol ar ddewis y rhieni

Cyn i chi ddechrau – os hoffech chi lenwi'r ffurflen hon ar-lein, ewch i:

https://www.surveymonkey.com/r/WFS68F2

Yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd i chi yn y llyfryn hwn, yn y digwyddiad ymgynghori ac o ddogfennau eraill sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint, rhowch eich barn ar ddewis a ffefrir gan y Cyngor yn ardal Llanfynydd.

1. A ydych yn cytuno â'r cynnig i gau Ysgol Llanfynydd (erbyn 31 Awst 2016)?

○ Ydw ○ Nac ydw

2. Dywedwch wrthym os ydych yn ymateb fel:

○ Disgybl o Ysgol Llanfynydd
○ Rhiant/gofalwr i ddisgybl yn Ysgol Llanfynydd
○ Llywodraethwr Ysgol Llanfynydd
○ Athro Ysgol Llanfynydd
○ Aelod o Staff Cefnogi o Ysgol Llanfynydd
○ Aelod Cymuned
○ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

3. Dywedwch wrthym a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer darpariaeth addysg gynaliadwy yn Llanfynydd?

4. Gadewch i ni gael eich sylwadau neu farn ychwanegol ynghylch y cynnig. Dywedwch wrthym pam rydych chi'n teimlo fel hyn.

5. A fyddech yn hoffi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb?

○ Hoffwn ○Na hoffwn

6. A fyddech yn hoffi derbyn cyswllt e-bost i'r adroddiad ymgynghori ffurfiol pan gaiff ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint?

○ Hoffwn ○Na hoffwn

7. Os ydych wedi ateb 'ydw/hoffwn' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, rhowch gyfeiriad e-bost os gwelwch yn dda. Os na fyddwch yn rhoi cyfeiriad e-bost ni allwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

8. Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

O dan delerau Deddf Gwarchod Data 1988 mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi am y canlynol:

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gofyn am eich barn er mwyn helpu i lywio'r penderfyniad ar y cynnig presennol. Bydd y wybodaeth rydych chi wedi ei darparu yn cael ei defnyddio ar gyfer y dibenion hyn yn unig ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei rhannu gydag asiantaethau mewnol eraill sy'n ymwneud â'r Ymgynghoriad, fodd bynnag i roi gwybod i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad am eich barn ac er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fater rydych chi wedi ei godi yn unig. Os nad ydych chi'n dymuno cynnwys

manylion personol, bydd eich barn yn dal i gael ei hystyried ond ni fyddwn yn gallu cydnabod derbyn eich ymateb yn bersonol.

Cyngor Sir y Fflint yw'r rheolwr data at ddibenion y Ddeddf Diogelu Data 1998. Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn unol â'r Ddeddf honno ac mae'n cael ei chasglu ar gyfer y diben a nodwyd uchod yn unig, ac ni chaiff ei rhannu gydag unrhyw un arall.

Er mwyn monitro pa mor gynhwysol yw ein hymgysylltu, byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad wrth ddarparu, ar sail hollol wirfoddol, y wybodaeth y gofynnir amdani isod. Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddienw, a bydd yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel ar ôl i ni gasglu'r wybodaeth.

Oedran: Rhowch eich dyddiad geni (DD/MM/BBBB): ☐☐/☐☐/☐☐☐☐

Mae'n well gen i beidio â dweud ☐

Rhyw:

Gwryw	☐	Arall	☐
Benyw	☐	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Hunaniaeth genedlaethol: Sut fyddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?

Cymreig	☐	Prydeinig	☐
Saesneg	☐	Gwyddelig	☐
Albanaidd	☐	Arall (disgrifiwch os gwelwch yn dda) _____	☐
Gogledd Wyddelig	☐	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Ethnig Grŵp: Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp ethnig neu eich cefndir orau.

Gwyn		**Du/Du Prydeinig**		**Asiaidd/Asiaidd Prydeinig**	
Prydeinig	☐	Caribïaidd	☐	Indiaidd	☐
Saesnig	☐	Affricanaidd	☐	Bangladeshaidd	☐
Gogledd Wyddelig	☐	Unrhyw Gefndir Du arall	☐	Pacistanaidd	☐
Albanaidd	☐			Tseiniaidd	☐
Cymreig	☐			Asiaidd arall	☐
Gwyddelig	☐				
Sipsi neu Wyddelig Teithiwr	☐				
Arall	☐				
Cymysg/Prydeinig Cymysg				**Arall/Prydeinig Arall /**	
Gwyn / Du Caribïaidd			☐	Arabaidd	☐

Gwyn / Du Affricanaidd	☐			Arall (nodwch os oes angen)	☐
Gwyn / Asiaidd	☐	Cefndir cymysg arall	☐	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Tueddfryd Rhywiol: Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut yr ydych yn ystyried eich hun?

Heterorywiol / strêt	☐	Deurywiol	☐
Dyn Hoyw	☐	Arall (nodwch os dymunwch) …….	☐
Menyw Hoyw/Lesbiaidd	☐	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Sylwer: Dylid gofyn y cwestiwn hwn i bobl dros 16 oed yn unig.

Crefydd neu gred: Beth yw eich crefydd?

Cristion (pob enwad)					☐	Dim crefydd	☐
Bwdhaeth	☐	Mwslim	☐	Iddewiaeth	☐	Arall (Nodwch) _____	☐
Hindw	☐	Sikh	☐	Anffyddiaeth	☐	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Statws priodasol:

A ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw?	Ydw	☐
	Na	☐
	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Anabledd: Mae adran 6(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod gan berson anabledd os:

(a) Oes gan y person hwnnw nam corfforol neu feddyliol, ac

(b) Mae'r nam yn cael effaith sylweddol ac andwyol hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Ydw	☐
	Na	☐
	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Iaith:	Beth yw eich dewis iaith?	
	Saesneg	☐
	Cymraeg	☐
	Arall (gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain) _____	☐
	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Cyfrifoldebau Gofalu:	Ydych chi'n gofalu am neu'n rhoi help neu gymorth i aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd:	
• Salwch/anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir; neu • Broblemau sy'n gysylltiedig â henaint	Ydw Na Mae'n well gen i beidio â dweud	☐ ☐ ☐